Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Ffrindiau Iesu:

rhannu'r Newyddion Da

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris
Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYHOEDDIADAU'R GAIR

Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil
Gideon - yn ymladd dros Dduw
Y Nadolig
Teulu Newydd Ruth
Moses - Y Dywysoges a'r Baban
Pasg – Iesu'r Brenin
Samuel – Duw yn siarad â Samuel
Pentecost – Newyddion Da Iawn
Daniel – yn ffau'r Llewod
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas
Dechrau'r byd: Hanes y Creu
Iesu'n dangos ei allu
Joseff yn yr Aifft
Y Nadolig: Rhodd Duw
Iesu: Ffrind mewn angen
Moses: Gadael yr Aifft
Y Pasg: trwy lygaid Pedr
Abraham: ffrind Duw
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys
Y Beibl: Stori Fawr Duw

Iesu'r Meddyg
Dafydd: bugail a brenin
Elias: negesydd Duw
Nadolig: Goleuni'r Byd
Jona: Proffwyd Anfodlon
Iesu'n croesawu pawb
Y Pasg: y daith fawr
Jeremeia: proffwyd mewn twll
Paul: yn cyfarfod Iesu
Moses: Y Deg Gorchymyn
Iesu: y Ffrind Gorau
Solomon: y brenin doeth
Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Nadolig: O'r nef y daeth
Josua: yr arweinydd newydd
Iesu'r athro da
Y Pasg: "Gorffennwyd"
Esther: y frenhines ddewr
Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Ffrindiau Iesu: rhannu'r Newyddion Da ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2010

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 683 6
Argraffwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwyr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed
Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed
Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwers, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed
Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol
Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol
Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*

Cyflwyniad i'r athro: Ffrindiau Iesu: Actau 16

Un o'r pethau sy'n fy nhristau'n fawr yw teimlad pobl fod Cristnogaeth yn amherthnasol heddiw, yn yr unfed ganrif ar hugain. Cofiaf yn dda, tra'n fy arddegau, clywed y safbwynt yma wrth siarad gyda gwraig ar stepen drws. Roedd criw ohonom yn mynd o ddrws i ddrws yn yr ardal, yn cynnig llyfryn bach i bob teulu, ynghyd â gwahoddiad i ymuno â'r gynulleidfa leol ryw ddydd Sul. Cymerodd gwraig y tŷ'r llyfryn ac edrych arno, cyn ei estyn yn ôl ataf gyda'r geiriau, 'Dyn ni ddim angen hwnna, diolch' a chau'r drws arnaf! Dyna yn wir y mae nifer helaeth o'r Cymry Cymraeg yn dweud wrth Dduw heddiw - 'Dyn ni ddim dy angen di, diolch, rydym yn hapus i fyw hebot!' I rywun na all ddychmygu ceisio byw heb yr Iesu, mae'r geiriau hyn yn dorcalonnus. Sut ydyn ni, fel pobl Dduw, yn mynd i berswadio pobl bod yr Efengyl yn newyddion da iddynt, hyd yn oed i bobl 'soffistigedig' 2010?

Mae astudio llyfr Luc yn ein herio, bob un ohonom, i ail-afael yn y dasg o berswadio ein teulu, ein cymdogion a'n cydweithwyr bod yr Efengyl yn newyddion y maen nhw wir angen ei glywed ac ymateb iddo. Rydym yn gweld dilynwyr cyntaf yr Arglwydd Iesu, wedi derbyn nerth yr Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost, yn ceisio cyflawni comisiwn yr Arglwydd ei hun, i fynd â'r newyddion da i'r holl fyd. Gwelwn frwdfrydedd a ffydd ar waith wrth iddynt bregethu yn Jerwsalem, Jwdea, Samaria ac ymhellach fyth. Gwelwn anawsterau'n codi, wrth i'r Iddewon geisio eu hatal gyda chasineb mawr. Gwelwn bobl yn cael eu tynnu o dywyllwch crefydd farwaidd a phaganiaeth remp, i brofi goleuni a bywyd y Duw goruwch-naturiol yn llenwi eu calonnau.

Byddwn yn ystyried hanesion pennod 16 gyda'r plant, tra bydd y bobl ifanc yn astudio'r hanesion o Actau 8, 10 a 14. Mae'n amlwg yn yr hanesion hyn, fod yr Efengyl yn berthnasol i bob math o bobl, ac yn nodweddiadol ym mhennod 16 i'r math o bobl nad oeddent yn cael croeso gan yr Iddewon - caethferch, gwraig a dyn nad oedd yn perthyn i genedl Israel. Roedd gan bob un ohonynt angen, angen nad oedd ond Duw yn gallu ei ateb - yr angen i gael eu cymodi gyda Duw. Mae'r angen hwnnw'n parhau hyd at heddiw, a dim ond ymddiried yng ngwaith Iesu Grist ar y groes ar ein rhan, sy'n dod â ni at Dduw. Dyma'r newyddion da sydd gennym i'w rannu, bod Duw, yn Iesu, yn cymodi'r byd ag ef ei hun. Gweddïwn am nerth yr Ysbryd Glân i'n cynorthwyo yn y gwaith, ac am i'r Ysbryd fod ar waith yng nghalonnau pobl ein gwlad, er mwyn iddynt sylweddoli nad ydynt yn medru byw heb yr hwn a roddodd ei fywyd er eu mwyn.

Diolch yn fawr i Catrin Roberts am gynllunio'r Gwasanaeth Teuluol ac i Gwilym Jeffs a Steffan Morris am gynllunio gwersi'r bobl ifanc.

Rhestr Adnoddau

Ffrindiau Iesu: Beiblau Lliw

'Y Beibl i Blant mewn 365 o Storïau', hanesion tud. 397, 398

Beibl Newydd y Plant, tud. 234-5

Oed Meithrin – 5
Ffrindiau Iesu: Actau 16



Amcanion

- I gyflwyno Paul, Silas, Timotheus a Luc – rhai o ffrindiau Iesu a rannodd y newyddion da
- I gyflwyno rhai o'r cymeriadau a dderbyniodd neges y ffrindiau yn Philipi
- I drafod ystyr y 'newyddion da' yr oeddent yn ei rannu.

AMSER CHWARAE

1. Amser Pacio

Bydd angen dau fag gwyliau neu gês, ac amrywiaeth o eitemau i'w 'pacio', rhai ar gyfer gwyliau mewn gwlad boeth a rhai ar gyfer gwyliau mewn gwlad oer, ac efallai, rhai eitemau nad oes angen ar wyliau o gwbl.

Treuliwch amser yn trafod y broses o bacio ar gyfer mynd ar wyliau. Anogwch y plant i rannu eu profiadau. Dangoswch y ddau fag ac esboniwch eich bod angen cymorth y plant i'w pacio. Eglurwch eich bod angen pacio un bag ar gyfer tywydd poeth, ac un ar gyfer tywydd oer. Gosodwch yr eitemau o flaen y plant â'u gwahodd, un ar y tro, i estyn rhywbeth i un o'r bagiau. Efallai yr hoffech osod llun yr haul wrth un o'r bagiau a llun dyn eira wrth y llall, o Atodiad 1.

Ar ôl gorffen pacio, esboniwch y byddwn yn clywed hanes rhai o ffrindiau Iesu a aeth ar daith hir, ond nid oeddent yn mynd ar wyliau! Roeddent yn teithio'n bell er mwyn cael dweud wrth bobl eraill yr hanes am Iesu.

2. Llyfr trafnidiaeth

Bydd angen llyfr neu lyfrau sy'n cynnwys lluniau gwahanol gerbydau.

Treuliwch amser yn edrych ar y llyfr/llyfrau, yn trafod y gwahanol gerbydau. Holwch y plant i ddarganfod pa gerbydau y maent wedi teithio ynddynt. Trafodwch pa gerbydau sydd orau ar gyfer mynd yn bell/mynd i'r ysgol/cario nwyddau i'r siopau ayyb.

Adroddwch hanes personol amdanoch eich hun yn mynd ar daith, os yn bosibl, yn cynnwys sawl un o'r cerbydau. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes rhai o ffrindiau Iesu heddiw a aeth ar daith hir, ond doedd dim awyrennau neu drenau neu geir iddynt deithio. Yn hytrach, roeddent yn cerdded, neu'n mynd ar gefn ceffyl, neu mewn trol neu gwch i gyrraedd pen eu taith. Roedd ffrindiau Iesu'n mynd ar deithiau er mwyn cael cyfarfod â phobl newydd a sôn wrthynt am Iesu.

3. Gêm deithio

Bydd angen y lluniau o Atodiad 2 a thambwrîn.

Dangoswch y lluniau i'r plant a'u trafod (Pwy sydd wedi bod i'r parc? Sut wnaethoch chi deithio i'r parc?) cyn eu gosod ar y waliau o amgylch yr ystafell.

Gwahoddwch y plant i gerdded o amgylch yr ystafell tra clywir y tambwrîn. Pan fydd y tambwrîn yn tewi, galwch enw un o'r lleoliadau a modd teithio. Dylai'r plant symud i'r lleoliad yn y modd a benodir, e.e. "Rydym yn mynd i'r traeth mewn awyren," gyda'r plant yn codi eu breichiau fel adenydd awyren a gwneud sŵn 'zwwm' wrth symud at lun y traeth.

Esboniwch y byddwn yn clywed hanes rhai o ffrindiau Iesu heddiw a aeth ar daith hir, ond doedd dim awyrennau neu drenau neu geir iddynt deithio. Yn hytrach, roeddent yn

Oed Meithrin – 5
Ffrindiau Iesu: Actau 16

AMSER CHWARAE

cerdded, neu'n mynd ar gefn ceffyl, neu mewn trol neu gwch i gyrraedd pen eu taith. Roedd ffrindiau Iesu'n mynd ar deithiau er mwyn cael cyfarfod â phobl newydd a sôn wrthynt am Iesu.

4. Amser Gwisgo i fyny
Bydd angen amrywiaeth o ddillad gwisgo i fyny i'r plant neu ddillad doliau a doliau/ tedis. Hefyd, dilledyn porffor.

Treuliwch amser yn chwarae gyda'r dillad neu'n gwisgo'r teganau. Ar ôl clirio, dangoswch y dilledyn porffor i'r plant. Esboniwch fod yr hanes gwir o'r Beibl heddiw am wraig a oedd yn gwerthu defnydd porffor er mwyn gwneud dillad hardd a drud.

5. Gwneud jig-so
Bydd angen sawl jig-so sy'n addas i'r plant.

Treuliwch amser yn cwblhau'r jig-sos, yn cynorthwyo'r plant i helpu ei gilydd yn y dasg. Atgoffwch y plant am hanes Paul, Silas a Timotheus yn teithio'r wlad yn rhannu'r hanes am Iesu Grist gyda phobl. Fel y mae'r plant yn cynorthwyo ei gilydd i orffen y jig-sos, felly roedd y dynion yn helpu ei gilydd yn eu gwaith o rannu'r neges am Iesu. Roeddent yn sgwrsio a gwneud trefniadau gyda'i gilydd, yn gofalu am ei gilydd ac yn cadw cwmni i'w gilydd, yn caru ei gilydd.

AMSER STORI

1. Paul a'i ffrindiau'n teithio i Philipi
(Actau 16: 1-12)

Bydd angen pin ffelt.
Tynnwch lun wyneb dyn ar un o'ch bysedd a chyflwyno'r 'dyn' hwn i'r plant fel Paul, un o ffrindiau Iesu. Esboniwch wrth y plant fod Iesu wedi marw ac wedi dychwelyd i'r nef, ac roedd Iesu wedi dweud wrth Paul am ddweud wrth gymaint o bobl a phosibl bod Iesu'n eu caru ac am fod yn ffrind iddynt. Felly, dyma Paul yn dechrau ar y gwaith. Codwch fysedd y llaw arall (dyma'r bobl) a symud 'Paul' fel ei bod yn 'siarad' gyda'r bobl. Dywedwch, "Mae Iesu wedi fy nanfon i yma i siarad gyda chi. Mae Iesu am i chi wybod ei fod yn eich caru chi yn fawr iawn. Mae Iesu am fod yn ffrind i chi, fel mae'n ffrind i mi."

Roedd llawer o'r bobl yn credu neges Paul ac am fod yn ffrindiau â Iesu hefyd. Un ohonynt oedd Silas. *Tynnwch lun wyneb dyn arall ar un o'ch bysedd ar y llaw arall.* Gofynnodd Paul i Silas i fynd gydag ef i sôn wrth bobl am Iesu. "Silas, dwi'n gwybod dy fod yn caru Iesu Grist. Dw'i am i ti ddod gyda mi. Bydd rhaid inni deithio'n bell i sôn wrth gymaint o bobl â phosibl am Iesu, ddoi di gyda mi?" Roedd Silas yn falch iawn i gael mynd gyda Paul, felly i ffwrdd â nhw. Weithiau byddent yn cerdded am oriau i gyrraedd pen y daith (*gwnewch i'r bysedd 'gerdded' ar hyd y bwrdd neu i fyny'ch braich, gyda'r plant yn ymuno),* weithiau byddent yn marchogaeth ceffyl neu asyn, *(gwnewch sŵn clip clop y pedolau ar y bwrdd),* weithiau byddent yn teithio mewn cwch (*gwnewch siâp cwch gyda'ch dwylo a'u hysgwyd yn ôl ac ymlaen).*

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

AMSER CHWARAE

Yn y diwedd, maent yn cyrraedd tref Lystra. Roedd Paul wedi bod yn Lystra o'r blaen, ac roedd yn gwybod y byddai ffrindiau Iesu yno yn falch o'u gweld.
Tynnwch lun wyneb dyn ar fys arall, a'i gyflwyno i'r plant fel Timotheus.

Roedd mam Timotheus, a'i nain, wedi clywed Paul yn siarad am Iesu o'r blaen ac roeddent wedi credu neges Paul ac wedi gofyn i Iesu i fod yn ffrind arbennig iddynt. Roeddent wedi dysgu Timotheus am Iesu ers iddo fod yn blentyn bach. Nawr, roedd Timotheus yn ddyn ifanc.

"A yw'n bosibl i Timotheus ddod gyda ni hefyd?" gofynnodd Paul i'w fam. "Mae gennym waith pwysig i'w wneud, yn sôn wrth bobl ymhob man am Iesu. Mae yna lawer o bobl nad ydynt wedi clywed yr hanes amdano."

Felly, ymunodd Timotheus â Paul a Silas ar eu taith.

Weithiau, byddent yn cerdded am oriau i gyrraedd pen y daith (*gwnewch i'r bysedd 'gerdded' ar hyd y bwrdd neu i fyny'ch braich, gyda'r plant yn ymuno),* weithiau byddent yn marchogaeth ceffyl neu asyn, *(gwnewch sŵn clip clop y pedolau ar y bwrdd),* weithiau byddent yn teithio mewn cwch (*gwnewch siâp cwch gyda'ch dwylo a'u hysgwyd yn ôl ac ymlaen).*

Un noson, tra'r oedd pawb yn cysgu, cafodd Paul freuddwyd. Yn y freuddwyd, gwelodd ddyn yn galw arnynt, "Dewch draw i Facedonia i'n helpu." Deallodd Paul yn syth mai dyma ble roedd Duw am iddynt fynd nesaf, i rannu'r newyddion da am Iesu gyda phobl Macedonia. Felly, i ffwrdd â nhw ar unwaith, yn cerdded, (*bysedd yn cerdded*) ar gefn mul, (*bysedd yn gwneud sŵn pedolau*) ac mewn cwch (*bysedd yn creu siâp cwch*), yr holl ffordd i ddinas Philipi.

2. Cyfarfod â Lydia (Actau 16:11-15)
Bydd angen y 4 llun o Atodiad 3, wedi'u chwyddo os yn bosibl, a'u lliwio.

Adroddwch hanes Actau 16:11-15 yn eich geiriau eich hun, neu darllenwch yr hanes o 'Feibl Newydd y Plant', tudalen 234. Wedyn, defnyddiwch y lluniau i adolygu'r hanes gyda'r plant yn cymryd tro i ddweud beth sy'n digwydd ymhob llun. Atgoffwch y plant fod Paul wedi cyrraedd dinas Philipi gyda Timotheus a Silas.

Pwysleisiwch nad oedd Lydia wedi clywed am Iesu o'r blaen, er ei bod hi'n caru Duw ac yn gweddïo. Roedd hi mor falch i glywed yr hanesion am Iesu - dyma newyddion da oedd gan Paul a Silas a Timotheus iddi hi a'i ffrindiau.

Sylwch fod camgymeriad yn nhestun y Beibl Newydd: mae'n cyfeirio at Barnabas, ond Silas oedd cyfaill Paul yn yr hanes hwn, nid Barnabas.

3. Newyddion da i geidwad y carchar
(Actau 16:16-34)

Bydd angen creu 'carchar' gyda bocs esgidiau a gwneud modelau o Paul, Silas a cheidwad y carchar, gan ddefnyddio'r lluniau sydd ar daflen 3. Cewch ludo'r llun o Paul a Silas ar ddarn o gerdyn cryf a'i blygu yn ei hanner, fel y byddant yn 'eistedd,' a gludo llun ceidwad y carchar ar ddarn o diwb cardfwrdd, fel y gall 'sefyll' tu allan i'r carchar.

Oed Meithrin - 5
Ffrindiau Iesu: Actau 16

AMSER STORI

Torrwch gorneli'r bocs i lawr, fel bod ochrau'r bocs yn disgyn pan fydd y caead yn cael ei dynnu. Hefyd, torrwch ddrws sy'n ddigon mawr i'r model o Paul a Silas i fynd drwyddo, ac efallai ffenestr yn y 'gell'.

Dangoswch y 'carchar' (gyda'r caead ymlaen) a 'cheidwad y carchar' i'r plant. Gofynnwch iddynt pwy sy'n cael eu rhoi yn y carchar fel arfer. Esboniwch beth yw gwaith ceidwad y carchar.

Adroddwch hanes Paul a Silas yn cael eu taflu i'r carchar am fod rhai o bobl Philipi yn flin iawn o glywed y neges am Iesu. Doedden nhw ddim eisiau cael Iesu'n ffrind ac roedden nhw'n casáu Paul a Silas a Timotheus! Rhowch Paul a Silas yn y carchar - trwy'r drws - gan dynnu sylw'r plant at y cadwyni sydd ar draed y ddau.

Eglurwch sut roedd Paul a Silas yn canu'n llawen yn hwyr yn y nos, canu caneuon am Iesu, ac roedd y carcharorion eraill a cheidwad y carchar yn gwrando arnynt. Yn sydyn, clywsant sŵn mawr a dechreuodd y ddaear grynu. Agorodd holl ddrysau'r carchar a syrthiodd cadwyni'r carcharorion i gyd i ffwrdd. *Tynnwch gaead y bocs fel bod 'waliau'r' carchar yn disgyn.*

Roedd ceidwad y carchar wedi syrthio i gysgu! Deffrodd, a chafodd y braw mwyaf i weld y drysau i gyd ar agor, ac roedd yn siŵr bod y carcharorion i gyd wedi rhedeg i ffwrdd - ond doedden nhw ddim! "Mae'n iawn" gwaeddodd Paul, "Rydyn ni gyd dal yma. Paid â phoeni."

"Paul, Silas, dwi eisiau cael Iesu'n ffrind i mi hefyd. Beth sydd rhaid i mi ei wneud?" gofynnodd ceidwad y carchar.

"Mae'n rhaid i ti gredu'r neges am Iesu dy hun, a dangos iddo dy fod yn wir yn sori am yr holl bethau drwg rwyt ti wedi'u gwneud," atebodd Paul.

Aeth ceidwad y carchar â nhw adref, fel bod pawb yn ei deulu'n cael clywed y newyddion da am Iesu. Rhoddodd fwyd i Paul a Silas a golchi eu briwiau. A daeth pawb o deulu'r ceidwad yn ffrind i Iesu'r noson honno.



AMSERLEN

Wythnos 1:
Amser Chwarae 1, 2, 3 neu 5;
Amser Stori 1; Crefft 1 neu 4; Cân;

Wythnos 2:
Amser Chwarae 4; Amser Stori 2;
Crefft 2; Rhigwm;

Wythnos 3:
Crefft 3; Amser Stori 3; Gweddi;
Gêm o Amser Chwarae.

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Oed Meithrin - 5
Ffrindiau Iesu: Actau 16

AMSER CREFFT

1. Addurno bisgedi siâp calon
Paratowch ddigon o fisgedi ymlaen llaw i'r plant yn barod i'w haddurno, gan ddilyn y rysáit ganlynol. Neu, os oes gennych ddigon o amser a'r adnoddau, cewch bobi'r bisgedi gyda'r plant yn ystod y sesiwn. Cewch adrodd yr hanes tra bod y bisgedi yn coginio ac wedyn eu haddurno.

Pwysleisiwch wrth y plant bod siâp y bisgedi'n ein hatgoffa o'r neges yr oedd Paul, Silas a Timotheus am rannu gyda phawb arall, bod Iesu'n eu caru ac am fod yn ffrind arbennig iddynt.

Cynhwysion
- 200g o flawd plaen
- 75g o siwgr brown
- 50g o fenyn neu fargarin
- 1 llwy fwrdd o surop melyn
- Hanner llwy de o soda pobi
- 1 llwy de o sinsir
- 1 wy, wedi'i guro

Cyfarwyddiadau
1. Cynhesa'r popty i 180°C neu farc nwy 4.

2. Rhidylla'r blawd i bowlen gymysgu ac ychwanegu gweddill y cynhwysion sych.

3. Todda'r margarîn a'r siwgr gyda'i gilydd yn ofalus mewn sosban, ond paid gadael iddo ferwi.

4. Ychwanega'r margarîn wedi'i doddi, y surop a'r wy wedi'i guro at y gymysgedd flawd a chymysgu'n ofalus i wneud toes meddal.

5. Pan fydd y toes wedi oeri, rhaid ei rolio ar arwyneb â blawd arno hyd nes ei fod yn 0.5cm o drwch.

6. Defnyddia dorrwr i dorri siapiau calonnau yn y toes yn ofalus yna'u rhoi ar hambwrdd pobi.

7. Poba am 8-10 munud nes eu bod yn frown euraid. Yna, rhaid eu rhoi ar rac weiren i oeri.

2. Poster porffor
Bydd angen darn mawr o gerdyn neu ddefnydd plaen yn gefndir i'r llun, glud, siswrn, rhuban, darnau o ddefnydd, papur a cherdyn lliw porffor - bydd angen tipyn o ddefnydd sy'n eithaf tywyll i greu'r teitl fel ei bod yn amlwg. Ysgrifennwch deitl ar y cefndir ymlaen llaw, neu mae tudalen ar y GD i'w hargraffu sy'n cynnwys y teitl "Mae Iesu'n ein caru."

Cynorthwywch y plant i ludo darnau bach o ddefnydd/cerdyn/papur tywyllaf ar y geiriau a'r darnau mwy golau ar y cefndir. Gwnewch yn siŵr fod pob un o'r plant yn deall y teitl. Sgwrsiwch wrth weithio ynglŷn â sut y bu i Paul a Silas a Timotheus gyfarfod â Lydia a'i ffrindiau. Ydy'r plant yn cofio beth oedd gwaith Lydia? Beth oedd y neges oedd gan ffrindiau Iesu iddi? Dywedwch wrth y plant ei bod hi'n wych fod y neges am Iesu wedi ein cyrraedd ni hefyd - mae Iesu'n ein caru ninnau hefyd. Mae'r neges wedi ei rhoi i ni yn y Beibl a thrwy bobl eraill sy'n caru Iesu. Gosodwch y poster mewn lle amlwg, gan ddefnyddio'r rhuban i'w hongian. Os ydych wedi defnyddio defnydd yn gefndir, cewch styffylu'r poster i goes brws neu gansen gardd, cyn ei hongian.

Ar ôl gorffen, byddai'n dda gweddïo gyda'r plant, gan ddiolch am gael clywed y neges bod Iesu'n ein caru, fel clywodd Lydia amser maith yn ôl.

AMSER CREFFT

3. Cadwyni
Bydd angen un copi o 'Daflen 3' a chopi o Atodiad 4 ar bob plentyn, wedi ei dorri'n 4 stribed. Hefyd, bydd angen pensiliau lliw a glud neu dâp selo.

Edrychwch ar y llun o Paul a Silas yn y carchar, gan sylwi ar y cadwyni ar eu traed a'u dwylo. Pam oedd ceidwad y carchar wedi rhoi cadwyni arnynt?

Rhowch y 4 stribed i bob plentyn a'u cynorthwyo i greu patrwm gwahanol ar bob un a'u lliwio. Wedyn, cânt ludo neu dapio'r stribedi i greu cadwyn. Bydd y 'cadwyni' yn ddigon mawr i'r plant wthio'u dwylo drwyddynt i gael y syniad o fod mewn cadwyni fel Paul a Silas. Eisteddwch ar y llawr gyda'r plant wrth i chi eu hatgoffa o'r hanes am y ddau ffrind yn y carchar, yn canu mawl i Dduw, pan ddaeth daeargryn a syrthiodd y cadwyni i ffwrdd. Anogwch y plant i ysgwyd eu dwylo fel bod y cadwyni'n disgyn i lawr, wedyn, i neidio i fyny gan weiddi 'hwre!'

4. Yn y carchar
Defnyddiwch 'Daflen 3' i greu model o Paul a Silas yn y carchar.

Byddai'n syniad i gopïo'r daflen ar gerdyn. Plygwch y ddwy ochr i'r canol, fel bod y cymeriadau yn mynd o'r golwg. Tynnwch lun drws y carchar ar y tu allan. Wedi i'r plant liwio'r llun, cânt ei ddefnyddio i ail adrodd yr hanes. Byddai'n braf petai digon o amser i bob plentyn cael tro i adrodd yr hanes i chi. Cofiwch eu hannog i ganu, fel Paul a Silas, ac i ysgwyd y carchar wrth iddynt sôn am y daeargryn.

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Oed Meithrin – 5
Ffrindiau Iesu: Actau 16

AMSER CANU A GWEDDÏO

Gweddïau
❖ Diolch Dduw am y Beibl
Bydd angen Beibl Plant. Eisteddwch mewn cylch gyda'r plant ac esboniwch pa mor bwysig yw'r Beibl. Trwy ddarllen y Beibl rydym yn clywed y neges fod Iesu'n ein caru. Esboniwch yn syml mai dyna'r rheswm rydym yn dod i'r Ysgol Sul, i glywed y neges bod Iesu'n ein caru.

Adroddwch weddi syml, 'Diolch Iesu am y Beibl' neu 'Diolch Iesu am ein caru.' Pasiwch y Beibl i'r plentyn agosaf atoch a'i wahodd i ddal y Beibl ac i ddweud gweddi syml cyn pasio'r Beibl ymlaen i'r plentyn nesaf. Os yw plentyn yn swil, adroddwch y weddi eto iddynt gael dweud ar eich ôl.

Ar y diwedd, diolchwch am athrawon yr Ysgol Sul, un ar y tro.

❖ 'Pan dwi'n ofnus'
Eglurwch wrth y plant ei bod hi'n bosibl iawn fod Paul a Silas yn ofnus yn y carchar, â'u dwylo a'u traed mewn cadwyni. Ambell waith rydym ni'n ofnus hefyd. Dyma weddi syml ar gyfer yr adegau yna. Caiff y plant adrodd llinell ar eich ôl:

Helpa fi, Iesu,
Pan dwi'n teimlo'n ofnus
I fod yn ddewr
Gan gofio
Dy fod Ti
Yno gyda mi.

Anogwch y plant i gofio siarad gyda Iesu pan fyddant yn ofnus.

Rhigwm
Adroddwch y rhigwm gan annog y plant i gopïo'r symudiadau.

Dyma Lydia a'i ffrindiau
(*Dal un llaw i fyny ac ysgwyd y bysedd)*
Dyma'r afon lle byddant yn mynd i weddïo
(*Rhoi'r llaw arall yn syth ac ysgwyd y bysedd fel dŵr)*
Dyma Paul yn dod atynt gyda thri o'i ffrindiau
(S*ymud 4 bys o'ch blaen)*
I lawr at yr afon i sgwrsio gyda'r merched
(*Rhoi'r llaw yn syth a'i ysgwyd fel dŵr fel o'r blaen)*
Mae Paul yn sôn am ei ffrind, Iesu
(*Dal un bys i fyny)*
Mae Lydia'n gwrando'n ofalus ar neges Paul,
(*Rhoi dwylo tu ôl i'r clustiau i wrando)*
"Dwi am gael Iesu'n ffrind i mi hefyd," meddai Lydia.
(*Pwyntio at eich hun)*
Mae Lydia mor hapus i gael Iesu'n ffrind.
(*Croesi breichiau dros eich brest)*

Cân: 'Diolch'
I'r dôn: Diolch, Diolch Iesu

1. Diolch am y Beibl, Diolch am y Beibl, Diolch am y Beibl, Diolch Dduw.
Diolch am y Beibl, O diolch am y Beibl, Diolch am y Beibl, Diolch Dduw.

2. Diolch am ei neges …

3. Mae Iesu yn ein caru …



Roedd ffrindiau Iesu am rannu'r newyddion da gyda phawb. Un noson, cafodd Paul freuddwyd. Roedd Paul yn gwybod ble'r oedd Iesu eisiau iddyn nhw fynd nesaf.

Beth welodd Paul yn ei freuddwyd? Gluda'r llun cywir yma i orffen y llun.



Teulu Newydd Ruth © Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Taflen 2
Ffrindiau Iesu: Actau 16



Roedd Lydia a'i ffrindiau'n mynd at yr afon i sgwrsio ac i weddïo.
Daeth Paul atyn nhw. Dywedodd wrthyn nhw am Iesu.
Roedd Lydia mor hapus i glywed am Iesu – 'nawr roedd hi eisiau bod yn ffrind i Iesu hefyd.

Wyt ti'n cofio beth oedd gwaith Lydia? Fedri di liwio'r dillad y lliwiau cywir?











Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Oed 6 - 11
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Amcanion
- ❖ I gyflwyno Paul, Silas, Timotheus a Luc – ffrindiau Iesu
- ❖ I ddarganfod sut yr oeddent yn rhannu'r newyddion da gyda gwahanol bobl
- ❖ I weld effaith y newyddion da ar fywydau pobl
- ❖ I weld cyfrifoldeb pob Cristion i rannu'r newyddion da am Iesu.

Cân i'r gyfres
'Does dim cywilydd' - *Y Cyntaf a'r Olaf, (Curiad)*

Adnod i'r Gyfres
"Ewch i'r holl fyd i bregethu'r newyddion da…" Marc 16:15

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Gorsafoedd
Bydd angen ysgrifennu enwau'r llefydd canlynol ar ddarn mawr o bapur - mae'n rhaid bod y geiriau'n ddigon mawr i'r plant fedru eu darllen o tua 5 metr i ffwrdd: Jerwsalem, Rhufain, Philipi, Lystra, Derbe, Mysia (ardal nid tref yw Mysia), Troas. Ychwanegwch enwau trefi/pentrefi lleol hefyd. Bydd angen un enw ar gyfer bob plentyn.

Safwch mewn cylch gydag un plentyn yn y canol, a darllenwch y rhestr i'r plant, gan esbonio mai dyma rhai o'r llefydd y bu Paul, ffrind Iesu, yn ymweld â nhw, er mwyn cael rhannu'r newyddion da am Iesu. Cewch nodi, os bydd angen, nad oedd Paul wedi ymweld â Chymru - mae'r llefydd Cymraeg yno ar gyfer y gêm yn unig!

Rhowch un enw i bob plentyn, gan gynnwys y plentyn yn y canol – dyma enw eu gorsaf hwy.

Nod y gêm yw i ddau o'r plant gyfnewid lle heb i'r plentyn yn y canol cyrraedd un o'r gwagleoedd /gorsaf. Os bydd y plentyn yn y canol yn cyrraedd gorsaf cyn y llall, mae'n cael aros yn yr orsaf, tra bod y plentyn arall yn mynd i'r canol ac yn dewis dwy orsaf arall i gyfnewid lle. Parhewch am gyfnod nes bod pob plentyn wedi cael cyfle i newid lle gyda rhywun arall.

Dangoswch fap o deithiau Paul i'r plant. Cewch hyd i fap yng nghefn y Beibl Cymraeg Newydd. Yn gyntaf, dangoswch Jerwsalem ac Israel iddynt gan esbonio mai dyma lle yr oedd Iesu a'i ffrindiau'n byw. Eglurwch fod Iesu wedi dweud wrth ei ffrindiau y byddai'n rhaid iddynt deithio'n bell oddi cartref i rannu neges amdano gyda phawb.

Dangoswch yn fras i ble y teithiodd Paul, gan esbonio wrth y plant y byddwn yn clywed sut y bu i Paul a rhai o ffrindiau eraill Iesu weithio'n galed wrth fynd â'r neges am Iesu i lawer o bobl nad oeddent wedi clywed am Iesu o'r blaen.

2. Gêm 'Ewch '
Bydd angen tâp masgio i osod 4 llinell hir ar y llawr, gyda thua 30cm rhwng pob llinell.

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

Eglurwch fod Iesu, cyn iddo fynd yn ôl i'r nef, wedi dweud wrth ei ddisgyblion eu bod i gymryd y newyddion da amdano drwy'r byd. Yn gyntaf, roeddent i sôn wrth y bobl yn Jerwsalem, hynny yw, y bobl a oedd yn byw agosaf atynt. Wedyn, roedd yn rhaid mynd ychydig ymhellach - i Jwdea ac i Samaria - cyn mynd i bob man, 'i ben draw'r byd.'

Eglurwch fod y llinellau ar y llawr yn cynrychioli'r pedwar lleoliad: y llinell agosaf yw 'Jerwsalem', y llinell nesaf yw 'Jwdea', y drydedd linell yw 'Samaria' a'r llinell bellaf yw 'pendraw'r byd'.

Gwahoddwch bawb i sefyll ar y llinell 'Jerwsalem' i gychwyn y gêm. Wrth i chi alw enw lleoliad arall, mae'n rhaid i'r plant neidio arno a gweiddi ' Mae Iesu'n eich caru!' Cewch chwarae yn gystadleuol, gyda'r person olaf allan, neu chwaraewch am amser penodol heb unrhyw un yn 'colli.'

Eglurwch y byddwn yn clywed hanesion am rai o ffrindiau Iesu a aeth ar deithiau hir a pheryglus er mwyn cael rhannu'r newyddion da am Iesu.

3. Gem 'i'r Carchar
Mae'r gêm hon yn debyg i'r gêm 'Tip/Tag', ond gydag ychwanegiadau sy'n ei gysylltu â hanes Paul a Silas yn y carchar.
Bydd angen swp o gardiau bach, tua 5cm x 5cm o faint arnoch.

Dewiswch un plentyn i fod yn geidwad y carchar - ef neu hi sy'n rhedeg ar ôl y plant eraill i'w tagio. Penodwch ardal i fod yn 'garchar' - efallai yr hoffech osod cadeiriau mewn cylch. Os bydd plant yn cael eu tagio, maent yn gorfod mynd i'r carchar a byddant yn derbyn cerdyn.

Ar ôl ychydig, gwaeddwch 'Daeargryn' - ac mae'r plant sydd yn y carchar nawr yn rhydd i ail ymuno yn y gêm, ond maen nhw'n dal gafael yn y cardiau. Parhewch am gyfnod, cyn gofyn i'r plant i gyfri faint o gardiau sydd ganddynt. Y plentyn gyda'r nifer lleiaf sydd bellach yn geidwad y carchar. Mae'n dderbyniol i gael mwy nag un ceidwad, yn enwedig os oes llawer o blant yn chwarae.
Eglurwch wrth y plant y byddwn yn clywed hanes gwir am Paul a'i ffrind Silas yn gorfod mynd i'r carchar - nid am eu bod wedi gwneud unrhyw beth o'i le, ond oherwydd nad oedd rhai pobl bwysig yn hoffi'r neges yr oeddent yn ei rhannu am Iesu Grist.

4. Amser i foli Duw
Treuliwch amser gyda'r plant yn canu eu hoff ganeuon Cristnogol. Os nad ydych yn gyfarwydd â llyfrau caneuon Cristnogol i blant, mae'r llyfrau *Tyrd i Ddathlu* a *Y Cyntaf a'r Olaf* yn rhai defnyddiol iawn, yn llawn o ganeuon addas i blant. Neu, beth am ddysgu cân y gyfres?

Trafodwch gyda'r plant pam bod Cristnogion yn treulio amser yn canu i Dduw er mwyn ei ganmol. Ydy'r plant yn deall ystyr y gair canmol? Cyfeiriwch at achlysuron yn yr ysgol neu adref pan fyddant yn cael eu canmol, am wneud rhywbeth da neu am ymddwyn mewn ffordd sy'n plesio. Wrth ganu, mae Cristnogion yn ceisio canmol Duw, yn dweud wrtho yn y caneuon pa mor dda ydyw, pa mor gryf, a pha mor gariadus. Hefyd, rydym yn canu caneuon o ddiolch, yn sylweddoli'r bendithion - y pethau da - mae Duw yn rhoi'n hael i ni.
Yn ein stori wir o'r Beibl heddiw byddwn yn clywed am rai o ffrindiau Iesu'n ei ganmol, nid yn y capel, ond mewn lle rhyfedd iawn.

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

FFYRDD I GYFLWYNO'R HANES

1. Mynd ar daith (Actau 16:1-12)

Bydd angen y 'Llinell Amser' a chopi o Atodiad 5, wedi'i chwyddo os yn bosibl, ac wedi'i thorri yn arwyddion ar wahân. Gosodwch yr arwyddion ar y waliau o amgylch yr ystafell ymlaen llaw. Os dymunwch, gallwch dorri olion traed a'u gosod ar y llawr i'r plant gael eu dilyn o un lleoliad i'r nesaf. Mae amlinelliad troed i'w gael yn Atodiad 1.

Efallai yr hoffech wisgo 2 o'r plant i fyny fel Paul a Silas, a chael dillad ychwanegol i wisgo plentyn arall fel Timotheus yn y man priodol o'r hanes.

Edrychwch ar y llinell amser gyda'r plant gan ddechrau gyda'r llun 'Geni'r Gwaredwr.' Gofynnwch i'r plant i egluro beth sy'n digwydd yn y llun hwn a'r 6 llun nesaf. Atgoffwch y plant o gomisiwn Iesu i'w ddisgyblion i fynd â'r newyddion da amdano i bawb yn y byd. Doedd dim llawer o bobl yn gwybod am Iesu'n cael ei eni, am yr hyn yr oedd wedi dysgu pobl am Dduw, sut y bu farw ac atgyfodi er mwyn maddau ein pechodau, a sut y daeth yr Ysbryd Glân i nerthu ffrindiau Iesu â'u helpu. Roedd Iesu am i bawb glywed amdano, i glywed y newyddion da ei fod wedi marw drostynt oherwydd roedd yn eu caru gymaint - sut oedd hyn yn mynd i ddigwydd? Roedd rhaid i bob un o ffrindiau Iesu adrodd y newyddion da amdano. Heddiw, byddwn yn clywed am rai o ffrindiau Iesu'n dechrau ar y gwaith o rannu'r newyddion da.

Dechreuwch wrth arwyddbost 'Derbe', a gofynnwch i un o'r plant i ddarllen beth sydd o dan yr enw, cyn symud ymlaen i 'Lystra.' Os nad ydych wedi gosod olion traed i'r plant eu dilyn, dywedwch wrth y plant i chwilio am le rhif 2 neu am 'Lystra'. Yn 'Lystra', ar ôl darllen yr wybodaeth sydd ar yr arwyddbost, bydd angen dewis un o'r plant i wisgo fel Timotheus. Ewch ymlaen i Phrygia/Galatia, i Mysia ac i Troas, gan oedi ger bob arwydd i ddarllen beth sydd o dan yr enw.

Wrth adael Troas, esboniwch fod rhaid croesi'r môr i gyrraedd ardal Macedonia, felly caiff y plant esgus hwylio draw i Facedonia! Eisteddwch wrth yr arwyddbost olaf - Philipi - a gofynnwch y ddau gwestiwn i'r plant.

Gwnewch y pwynt bod Duw'n arwain Paul a Silas mewn ffyrdd arbennig, yn gyntaf roedd yr Ysbryd Glân yn eu hatal rhag mynd i ardal Bythynia, ac yna, cafodd Paul freuddwyd i ddangos ble i fynd nesaf.

2. Rhannu'r newyddion da gyda Lydia (Actau 16:11-15)
Bydd angen y 4 llun o Atodiad 6 a Beibl.

Darllenwch yr hanes o'r Beibl a defnyddiwch y lluniau i adolygu'r hanes gyda'r esboniad canlynol. Cofiwch liwio'r ail lun - y dilledyn - yn borffor ymlaen llaw.

Llun Lydia: Roedd Lydia yn credu yn Nuw ond doedd hi ddim wedi clywed am Fab Duw - Iesu. Roedd yr Hen Destament yn bodoli'r adeg honno, felly mae'n bosibl ei bod hi a'i ffrindiau wedi clywed am hanes pobl Dduw neu wedi cyfarfod ag Iddewon ac wedi dod i gredu. Byddent yn mynd at yr afon i weddïo oherwydd nad oedd synagog yn Philipi.

Llun dilledyn porffor: Roedd Lydia yn y busnes ffasiwn - yn gwerthu defnydd porffor. Yr adeg honno, roedd y lliw porffor yn ddrud iawn, felly byddai'r defnydd a werthwyd gan Lydia yn ddrud hefyd. Roedd dillad porffor yn cael eu

FFYRDD I GYFLWYNO'R HANES

gwisgo gan bobl bwysig a chyfoethog neu gan aelodau o deulu brenhinol.

Llun calon: Gofynnwch i bawb i ddarllen adnod 14. Beth mae'r adnod yn ei ddweud a ddigwyddodd i galon Lydia? Beth mae hyn yn ei olygu? Cafodd Lydia law driniaeth ar ei chalon? Na! Yn syml, Duw oedd wedi peri i Lydia ddeall a derbyn neges Paul a Silas am Iesu fel y gwirionedd. Fel arwydd o'r ffaith ei bod wedi dod i garu Iesu Grist, mae'n cael ei bedyddio.

Llun y tŷ: Roedd Lydia am ddangos ei diolch i Paul a Silas am ddod â'r newyddion da iddi hi a'i ffrindiau, felly mae'n eu gwahodd i'w thŷ, am fwyd efallai, er mwyn dysgu mwy am Iesu a beth mae'n ei olygu i fod yn ffrind iddo, ac efallai i aros dros nos.

Ar ddiwedd pennod 16, rydym yn darllen fod Paul a Silas yn ymweld â thŷ Lydia eto. Y tro yma, maen nhw'n cyfarfod â'r holl bobl sydd wedi dod yn ddilynwyr i Iesu yn Philipi - dechreuodd y capel cyntaf yn Philipi yn nhŷ Lydia.

Cymhwyso trwy ddefnyddio Taflen 5.

3. Newyddion da i geidwad y carchar
(Actau 16: 16- 34)

Rhannwch y plant yn barau neu grwpiau bach gyda chopi o Atodiad 7 a dau blât papur. Ymlaen llaw, ysgrifennwch 'Pethau da' ar rai o'r platiau a 'Pethau drwg' ar y lleill. Rhowch un o bob un i bob grŵp.

Edrychwch ar y lluniau gyda'r plant fel eu bod yn deall beth yw pob un. Esboniwch y byddwch y darllen hanes am Paul a Silas yn rhannu'r newyddion da am Iesu ac y byddwch yn oedi pan fydd un o'r lluniau'n cael ei gynnwys. Mae'n rhaid i'r plant benderfynu wedyn os mai 'Pethau da' neu 'Pethau drwg' sy'n digwydd a gosod y llun perthnasol ar y plât perthnasol.

Darllenwch

- Actau 16:16-18 (llun y gaethferch)
- Actau 16: 19-22 (llun yr arian)
- Actau 16:23, 24 (llun y carchar)
- Actau 16:25 (llun y gerddoriaeth)
- Actau 16:26, 27 (llun y drws agored)
- Actau 16: 28-34 (llun y bwyd)

Edrychwch ar y lluniau eto gyda'r plant a thrafod pam eu bod wedi gosod y lluniau fel hyn. Treuliwch amser yn trafod pam fod Paul a Silas yn canu yn y carchar. Roedd Paul a Silas yn credu bod Duw gyda nhw ble bynnag yr oeddent a beth bynnag a fyddai'n digwydd iddynt.

Cymhwyso
Defnyddiwch y syniad 'Amser i Edrych' o'r adran gweddïau i gymhwyso'r hanes.

SYNIADAU CREFFT

1. Rhannu'r newyddion da
Beth am ddefnyddio un o'r syniadau canlynol i greu anrheg fach gall y plant ei roi'n rhodd i rywun i gyflwyno iddynt y newyddion da bod Iesu'n ei g/charu?

❖ **Torch calonnau**



Bydd angen: papur coch, gwyn ac aur, platiau papur, siswrn, glud, rhuban, yr adnod Ioan 3:16 (gweler Atodiad 8), siapiau calon o wahanol faint fel templedi.

❖ Rhowch blât papur i bawb a'u gwahodd i gopïo'r adnod yn y canol

❖ Torrwch galonnau o wahanol faint a lliw

❖ Gludwch y calonnau o amgylch yr adnod ar ymylon y plât i greu torch

❖ Tapiwch y rhuban ar gefn y plât er mwyn hongian y dorch.

❖ **Croes dal yr haul**

Bydd angen bagiau plastig lliwgar, darnau o gerdyn i greu ffrâm, styffylwr, tâp selo, edafedd/rhuban, 2 haearn smwddio, papur 'gwrthsaim.'

❖ *Creu cefndir.*
Rhowch ddarn o bapur 'gwrthsaim' i bawb. Dewiswch ddarnau o blastig lliwiau golau a'u gosod ar y papur fel eu bod yn gor-lapio ei gilydd mewn siâp petryal. Gosodwch ddarn o bapur 'gwrthsaim' dros y cwbl a'i smwddio. Gadewch yr haearn ar wres canolig. Byddai'n syniad cael oedolion yng ngofal y ddau haearn drwy'r amser. Dylai'r darnau o blastig lynu wrth ei gilydd wrth i wres yr haearn eu toddi.

❖ *Creu croes*.
Gosodwch ddarnau o blastig lliw tywyll ar y cefndir ar siâp croes. Gosodwch ddarn o bapur 'gwrthsaim' dros y cwbl a'i smwddio.

❖ *Creu ffrâm*.
Torrwch ddarnau o gerdyn i ffitio'r llun a'u styffylu yn eu lle. Tapiwch ddarn o edafedd/rhuban ar y ffrâm er mwyn hongian eich llun. Bydd y lluniau yn ddeniadol iawn wrth eu hongian o flaen ffenestr i ddal y golau.

2. Llun porffor
Casglwch amrywiaeth o bapur, cerdyn, defnydd a gwlân lliw porffor i greu llun. Caiff y plant weithio'n unigol neu mewn grwpiau bach. Dyma rai syniadau ar gyfer llun:

❖ Calon fawr borffor, gyda'r geiriau 'Yr Arglwydd a agorodd galon Lydia' yn deitl;

❖ Cefndir o borffor gyda'r adnod, neu eiriau addas, mewn llythrennau porffor tywyll;

❖ Defnyddio'r lluniau o Atodiad 6 ac ar ôl eu lliwio, a'u gludo ar 4 triongl o bapur porffor. Styffylwch y 4 triongl ar ddarn o ruban neu gortyn i greu baneri sy'n eich atgoffa o hanes Lydia'n credu yn yr Arglwydd Iesu.

SYNIADAU CREFFT

3. Sioe ffasiynau
Beth am gynnal cystadleuaeth creu'r wisg orau gan ddefnyddio sbwriel 'glân'?

Casglwch ddigonedd o gylchgronau, papurau newydd, hen bapur lapio, bagiau plastig a gwnewch yn siŵr bod gennych dâp selo a styffylwr i bawb.

Rhannwch y plant yn barau a'u herio i greu dillad ar gyfer un ohonynt. Cofiwch roi amser i gynllunio ac i ddewis deunydd cyn dechrau ar y dasg, ac i adael digon o amser ar y diwedd i bawb gael gweld y 'creadigaethau'!

4. Cadwyni o fawl
Bydd angen 10 stribed o bapur lliw ar gyfer pob plentyn, sgleiniau, pinnau ffelt arian ac, ac unrhyw beth arall a fyddai'n addas i addurno'r gwaith.



Treuliwch ychydig o amser yn adolygu'r hanes am Paul a Silas yn canu tra'r oeddent mewn cadwyni yn y carchar. Pam oedden nhw'n canu a chanmol Duw a hwythau mewn poen, wedi'u cloi mewn cell dywyll, oer a drewllyd, a ddim yn gwybod beth oedd o'u blaen?

Ar ôl clywed atebion y plant, gofynnwch iddynt a ydynt yn treulio amser bob dydd yn canmol Duw? Esboniwch ystyr y gair 'canmol' trwy gyfeirio at yr achlysuron pan fyddant yn derbyn canmoliaeth. Er bod Paul a Silas mewn helynt, roeddent yn dal yn medru meddwl am resymau i ganmol Duw. Pa resymau sydd gennym ni dros ganmol Duw?

Rhowch 10 stribed o bapur i bob plentyn a'u gwahodd i feddwl am 10 rheswm dros ganmol Duw, ac i ysgrifennu un ar bob stribed. Wedyn, cânt addurno'r stribedi gyda'r offer cyn eu gludo yn ddolenni a chreu cadwyn.

Anogwch y plant i ddefnyddio'r gadwyn wrth weddïo bob dydd, gan egluro bod Duw'n falch pan fyddwn yn ei ganmol.

Mae llawer o bobl ond yn gweddïo er mwyn gofyn am bethau gan Dduw, ac mae Duw'n barod i wrando ar ein gweddïau, ond mae'n bwysig i ni gofio'r bendithion, y pethau da y mae Duw'n ei roi i ni bob dydd ac i ddiolch iddo.

Mae'n dda hefyd, i ystyried sut un ydyw Duw, ei fod yn ein caru, ei fod yn barod i faddau, ei fod yn gryf, yn gwybod popeth ac yn gweld popeth a'i ganmol am fod fel hyn.

5. Taflenni Gwaith

AMSERLEN

Wythnos 1:
Cyflwyno'r Thema 1; Stori 1; Drama 2; Crefft 1; Dysgu'r Adnod;

Wythnos 2:
Cyflwyno'r Thema 2; Stori 2; Crefft 2 neu 3; Cwis;

Wythnos 3:
Cyflwyno'r Thema 3 neu 4; Stori 3; Drama 1; Crefft 4; Gweddi.

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Gemau

❖ Chwaraewch un o'r gemau o'r adran 'Cyflwyno'r Thema'

❖ Ras rhwystr 'cyrff'.

Esboniwch eich bod am greu cwrs rhwystr gyda'r plant yn defnyddio eu cyrff i greu rhwystrau - efallai byddai rhai'n hoffi gweithio mewn parau, e.e. plygu drosodd i greu pont gyda'r corff, plygu lawr i greu siâp i neidio drosodd, ymestyn dwylo i'r awyr ac agor coesau yn rhwystr i redeg o'i amgylch.

Ar ôl i bawb ddewis pa rwystr byddant yn ei greu, gosodwch y plant o amgylch eich ystafell, gydag un plentyn ar y tro yn ceisio cwblhau'r cwrs. Cofiwch amseru pob un, gyda gwobr fechan i'r enillydd.

Trafodwch y rhwystrau wynebodd Paul, a ffrindiau eraill Iesu, wrth iddynt geisio rhannu'r newyddion da. Yn hanesion y gyfres hon, rydym yn gweld sawl problem a rhwystr - yr anhawster o orfod teithio'n bell, y broblem o wybod ble yn union oedd Iesu am iddyn nhw fynd, ymateb cas rhai pobl, cael eu curo a'u taflu i'r carchar.

Dysgu'r Adnod

Bydd angen copïau o'r adnod o Atodiad 8 a gwelltyn yfed i bob plentyn. Torrwch yr adnod yn eiriau unigol a'u gosod ar un ochr yr ystafell mewn powlenni ar wahân. Bydd angen un adnod ar gyfer pob tîm.

Rhannwch y plant yn dimoedd a'u gosod i sefyll gyferbyn â'r powlenni sy'n cynnwys yr adnod. Mae un aelod o'r tîm yn mynd i nôl un gair o'r adnod ar y tro, ac yna eu cludo'n ôl i'w t/thîm gyda'r gwelltyn - mae angen sugno'n galed er mwyn cadw'r papur yn sownd i'r gwelltyn.

Ar ôl casglu'r geiriau, bydd angen eu gosod mewn trefn, a cheisio dysgu'r adnod. Darllenwch yr adnod gyda'r timoedd, a'u gwahodd i'w hadrodd yn eu tro. Esboniwch beth yw ystyr y cymal 'y newyddion da'. Er mai'r disgyblion gafodd yr her hon gan Iesu, mae'n her i bob Cristion heddiw hefyd. Mae Iesu am i ni rannu'r newyddion da gydag eraill - sut allwn ni wneud hyn?

Cwis

Bydd angen rhestr o gwestiynau, bocs esgidiau a darnau o edafedd o hyd gwahanol. Ymlaen llaw, gwnewch dyllau yng nghaead y bocs, un twll ar gyfer pob cwestiwn. Torrwch yr un nifer o ddarnau o edafedd, rhai'n hir iawn a rhai'n fyr iawn, ag eraill o hyd cymedrol. Rhowch y darnau edafedd i mewn yn y bocs, gydag un pen o bob darn yn mynd trwy un o dyllau'r caead. Ar ôl gosod y caead ar y bocs dylech weld diwedd bob darn o edafedd, ond wrth gwrs, mae'n amhosibl deall beth yw hyd y darnau.

Rhannwch y plant yn dimoedd a gofynnwch y cwestiynau iddynt, un ar y tro. Os ydynt yn ateb yn gywir, cânt dynnu un darn o edafedd o'r bocs. Mi fydd yn amlwg beth yw nod y cwis!

Gwahoddwch y timoedd i roi'r darnau o edafedd ben wrth ben, i greu llinyn hir ar y llawr. Bydd y tîm sy'n ffurfio'r llinyn hiraf yn ennill y cwis.

Eglurwch fod Paul wedi teithio tua 1,400 o filltiroedd ar ei ail daith, y daith yr ydym wedi bod yn ystyried yn y gyfres hon. Mae hynny'n cyfateb i deithio o un pen o Gymru i'r llall ac yn ôl 5 gwaith. Doedd dim cerbydau cyflym yr adeg honno - dim trenau na cheir - roedd Paul a Silas a Timotheus yn cerdded gan amlaf, neu'n marchogaeth ceffyl neu asyn, ac efallai'n cael ambell i lifft mewn trol. Doedden nhw ddim yn poeni am y teithiau hir a blinedig, roedden nhw ar dân eisiau dweud wrth bawb am Iesu a'i gariad anhygoel!

Oed 6 - 11
Ffrindiau Iesu: Actau 16

DRAMA

1. Paul a Silas yn rhannu'r newyddion da gyda 3 pherson arbennig iawn

Un ai,

Rhannwch y plant yn dri grŵp, gyda phob grŵp yn gyfrifol am ddarllen, trafod a pherfformio un o'r hanesion o Actau 16.

- Lydia – adnodau 11- 15;
- Y gaethferch – adnodau 16-21;
- ceidwad y carchar – adnodau 25-34.

Cofiwch dreulio amser yn trafod yr hanesion i sicrhau bod y plant yn eu deall, ac i gael digon o amser ar y diwedd i wylio pob perfformiad.

Neu

Yn hytrach na chael y plant i greu perfformiad, cewch gyfweld pob grŵp ar ffurf raglen deledu. Bydd angen i bob grŵp benodi pobl i fod yn gymeriadau o'r hanes a thrafod sut fyddai pob cymeriad wedi teimlo ac wedi profi yn yr hanesion.

Hanes Lydia: Lydia, ffrindiau Lydia, Paul, Silas, Timotheus.

Hanes y gaethferch: y gaethferch, ei 'pherchnogion', ynadon, Paul, Silas, Timotheus.

Hanes ceidwad y carchar; y ceidwad, y carcharorion eraill, teulu'r ceidwad, Paul, Silas.

2. Mynd ar daith gyda Paul a Silas

Bydd angen ysgrifennu'r enwau canlynol ar ddarnau unigol ymlaen llaw: Asia, Galatia, Mysia, Bithynia, Macedonia. Darn o ddefnydd glas.

Paratoi

Dangoswch yr enwau i'r plant a'u gwahodd i'w hail-adrodd. Esboniwch mai dyma enwau rhai o'r llefydd y bu Paul a Silas a Timotheus yn ymweld â hwy er mwyn sôn wrth y bobl a oedd yn byw yno am Iesu Grist.

Gosodwch yr enwau o amgylch yr ystafell, gyda'r darn o ddefnydd rhwng Mysia a Macedonia - y môr. Eglurwch wrth y plant eich bod am ddarllen hanes ffrindiau Iesu'n teithio, ac os byddant yn eich clywed yn gofyn y cwestiwn, 'Ble nesaf Arglwydd? Awn ni i ….' maen nhw'n gorfod ateb 'le' neu 'Nage' wrth edrych atoch am gliw - yn syml iawn, byddwch yn ysgwyd eich pen i ddangos ymateb positif neu negyddol.

Darllen yr hanes

Unwaith, roedd 3 teithiwr - Paul, Silas a dyn ifanc o'r enw Timotheus. Roedd Paul a Silas wedi cyfarfod â Timotheus mewn lle o'r enw Lystra. Teithiodd y 3 ymhell ac agos, yn dweud wrth bawb am Iesu Grist ac yn helpu ffrindiau newydd Iesu i ddeall mwy amdano.

Gweision Iesu oedd y tri. Roedden nhw'n awyddus i fynd i ble bynnag yr oedd Iesu'n dymuno. Ond sut oeddent i wybod i ble dylen nhw fynd? Dyma nhw'n gweddïo fel hyn,

'I ble awn ni nesaf Arglwydd? Awn ni i Asia?

Dylen nhw fynd i Asia? **(***Ysgwydwch eich pen*)

'**Na ddylen!'**

Felly, gweddïodd Paul a Silas a Timotheus unwaith eto:

'I ble awn ni nesaf Arglwydd? Awn ni i Galatia?

Dylen nhw fynd i Galatia? (*Nodiwch eich pen*)

'**Dylen.**'

Cerddwch draw i Galatia gyda'r plant. Cânt feimio'r rhan nesaf o'r hanes.

Teithiodd Paul a Silas a Timotheus trwy ardal Galatia. Aethant i gyfarfod â ffrindiau Iesu a oedd yn byw yno, a daeth mwy a mwy o bobl yn ffrindiau i Iesu Grist trwy wrando ar Paul a Silas a Timotheus. Ond, daeth hi'n amser i symud ymlaen. I ble nesaf? Gweddïodd y 3 eto.

'I ble awn ni nesaf Arglwydd? Awn ni i Mysia?

Dylen nhw fynd i Mysia? (*Nodiwch eich pen*)

'**Dylen.**'

Cerddwch i Mysia.

Oed 6 - 11
Ffrindiau Iesu: Actau 16

DRAMA

Unwaith eto, soniodd Paul a Silas a Timotheus wrth bawb am Iesu a daeth llawer mwy o bobl yn ffrindiau iddo. Ac unwaith eto, daeth hi'n amser symud ymlaen a gweddïodd y tri fel hyn,
'I ble awn ni nesaf Arglwydd?
Awn ni i Bithynia?
Dylen nhw fynd i Bithynia?
(*Ysgwydwch eich pen*)
'**Na ddylen.**'
Felly dyma nhw'n gofyn eto,
'I ble awn ni nesaf Arglwydd?'
Codwch eich bys i'ch ceg a sibrwd
'**Shh, aros i weld.'**
Yn ystod y nos, cafodd Paul freuddwyd. Yn ei freuddwyd, gwelodd ddyn yn pledio arno. 'Dewch draw i Facedonia, i'n helpu,' meddai'r dyn.
Ni wastraffodd Paul a Silas a Timotheus unrhyw amser. Paciwyd y bagiau a dechrau'n syth am y porthladd - roedd Duw wedi ateb eu gweddïau, gan ddangos ble i fynd nesaf.

Esgus hwylio dros y môr i Facedonia.
Ar ôl cyrraedd ardal Macedonia, aeth Paul a Silas a Timotheus i ddinas Philipi, ac ar y dydd Sul, aethant i lawr at yr afon i weddïo. Yno, dyma gyfarfod â chriw o ferched oedd wedi mynd yno i addoli Duw ond doedden nhw erioed wedi clywed am ei Fab, Iesu Grist. Enw un o'r merched yno oedd Lydia. Credodd Lydia a'i holl deulu'r newyddion da am Iesu Grist yn syth.
Bendithiodd Duw Paul a Silas a Timotheus. Digwyddodd llawer o bethau da, a daeth llawer o bobl yn Gristnogion – roedd hi'n wych! A'r cwbl am fod y tri'n ofalus iawn i wneud yr hyn oedd Duw ei eisiau, trwy ofyn bob tro,
'I ble awn ni nesaf, Arglwydd?'

GWEDDÏAU

❖ **Amser i Edrych**
Gofynnwch i'r plant sefyll. Eglurwch fod gennych dri chyfarwyddyd syml iddynt:
Yn ôl – dylai'r plant droi i wynebu'r cyfeiriad arall.
Ymlaen – dylai'r plant edrych i'r blaen.
O amgylch – dylai'r plant droi o amgylch unwaith.
Esboniwch wrth y plant fod Duw'n rhoi'r cyfarwyddiadau syml hyn i'w bobl dro ar ôl tro yn y Beibl i'w helpu pan nad yw'n mynd yn dda, ac mae'n ddigon posibl mai dyma oedd Paul a Silas yn ei gofio tra yn y carchar!
Yn ôl - mae Duw'n dweud wrth ei bobl i gofio'n ôl pan fydd pethau'n anodd ac i gofio sut y mae Duw wedi eu helpu o'r blaen. Dydy Duw erioed wedi gadael ei bobl, dydy Duw erioed wedi peidio â'u caru na gofalu amdanynt. A'r prawf mwyaf sydd gennym o gariad anhygoel Duw yw'r ffaith ei fod wedi danfon ei fab, Iesu, i'r byd i farw drosom, er mwyn ei gwneud yn bosibl i bawb sy'n credu yn Iesu gael maddeuant a dod i adnabod Duw.
Ymlaen - Mae Duw'n dweud wrth ei bobl gofio fod ganddo gynllun ar eu cyfer, ac un diwrnod bydd pobl Dduw'n cael bod gydag ef yn y nef - bydd pethau da iawn yn digwydd yn y dyfodol.
O amgylch – Mae Duw am i'w bobl gofio ei fod gyda nhw drwy'r amser, yn eu caru ac yn gofalu amdanynt er bod pethau drwg yn digwydd iddynt weithiau.
Rhowch y tri chyfarwyddyd i'r plant eto, gan ail adrodd yr esboniad iddynt.
I orffen, defnyddiwch y cyfarwyddiadau i arwain eich gweddïau. Rhowch bob cyfarwyddyd yn ei dro, gan ychwanegu gweddi, e.e. 'Diolch Dduw, wrth i ni edrych yn ôl, rydym yn gwybod dy fod wedi ein cadw'n ddiogel a'n caru.' 'Diolch am ein dysgu bod gennyt le arbennig yn y nef i dy bobl i edrych ymlaen at fod gyda thi.' 'Diolch dy fod gyda ni bob dydd, hyd yn oed pan fydd pethau drwg yn digwydd i ni.'

❖ **Gweddïau dros garcharorion**
Darllenwch yr hanesion o Daflen 7 a threuliwch amser yn gweddïo dros y plant, y bobl sy'n ceisio eu helpu ac am waith y *Barnabas Fund.*

Taflen 4
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Paul

Timotheus

Tynna lun o Paul a Timotheus. Beth am edrych ar luniau yn '*Beibl Lliw y Plant*' am gymorth?

Fedri di ddod o hyd i'r geiriau o Actau 16 yn y chwilair?

Paul
Silas
Timotheus
Lydia
Lystra
Philipi
Carchar
Canu
Ceidwad
Gweddio

T	W	E	R	A	H	C	R	A	C
I	S	A	L	D	P	U	Y	T	E
M	F	C	D	Y	A	W	E	R	I
O	G	A	H	L	S	M	N	B	D
T	H	N	F	D	S	T	A	C	W
H	L	U	O	U	T	E	R	W	A
E	F	H	E	L	Y	D	I	A	D
U	G	L	U	P	O	T	R	E	W
S	P	A	O	ï	D	D	E	W	G
A	P	H	I	L	I	P	I	D	B

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Taflen 5
Ffrindiau Iesu: Actau 16



Lliwia'r lluniau o hanes Lydia a'u defnyddio i dy atgoffa o'r hyn a ddigwyddodd pan aeth Paul, Silas a Timotheus i Philipi.
Defnyddia'r geiriau i orffen y brawddegau o'r hanes. Lydia, galon, porffor, nhŷ

Roedd gwraig o'r enw ..... yn byw yn Philipi.

Gwerthu dillad ..... oedd ei gwaith

'Dewch i fy .....' mynnodd Lydia.

Agorodd Duw ..... Lydia

Beth ddigwyddodd i Paul a Silas yn Philipi?

Ewch i'r holl fyd i bregethu'r newyddion da.

Marc 16:15

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Dysgu am waith:

barnabasfund
hope and aid for the persecuted church

Mae ysgol Gristnogol yn yr Aifft yn ceisio darparu addysg ar gyfer cannoedd o blant o deuluoedd Cristnogol sydd wedi ffoi yno o'r Affrig. Daeth llawer ohonynt o'r Swdan yn sgil y rhyfel cartref creulon yno (1983–2005). Roedd yn rhaid i lawer o'r boblogaeth – a rheiny'n Gristnogion – ffoi am eu bywydau. Mae rhieni'r plant yn rhy dlawd i dalu'n llawn am addysg eu plant, felly mae'r 'Barnabas Fund' yn cynorthwyo i gynnal yr ysgol.

Bob mis mae cylchgrawn Cristnogol sy'n llawn o hanesion, posau a chystadlaethau'n cael ei gynhyrchu mewn gwlad Arabaidd. Nod y cylchgrawn yw cryfhau ffydd plant wrth iddynt dyfu mewn cymdeithas Fwslemaidd, lle mae'r ffydd Gristnogol yn cael ei watwar.

Mae' r 'Barnabas Fund' yn rhoi arian tuag at gostau'r cylchgrawn fel bod hyd yn oed y teuluoedd tlotaf yn gallu fforddio ei brynu.

Meddylia am y plant yn y lluniau. Sut fyddet ti'n hoffi gorfod gadael dy gartref am ei bod hi'n rhy beryglus i fyw yno? Neu, beth pe bai pobl yn gas i ti am dy fod ti'n caru Iesu Grist?
Ysgrifenna weddi drostynt a thros 'Barnabas Fund' - yr elusen sy'n ceisio eu helpu, yn enw Iesu.

Cewch hyd i fwy o wybodaeth am y 'Barnabas Fund' ar ei safle gwe: www.barnabasfund.org

Wythnos 1:

Philip a'r Ethiopiad (Actau 8: 26-40)

Yn y sesiwn gyntaf, byddwn yn astudio hanes Philip yn cyfarfod, a rhannu'r newyddion da am Iesu gyda dyn o Ethiopia. I nifer o'n hieuenctid heddiw, mae rhannu'r hyn y maent yn ei gredu gydag eraill yn her fawr. Mae'r hanes yn dangos bod Duw ar waith trwy'r Ysbryd Glân mewn sawl ffordd wrth i bobl Dduw fod yn barod i rannu newyddion da'r Efengyl. Mae angen i ni fod yn agored i'r Ysbryd Glân i'n harwain i'r llefydd cywir, i'r bobl gywir, ar yr adeg gywir. Ac wrth inni fod yn ufudd, mae'r Ysbryd Glân ar waith yn newid calonnau.

Cyflwyno'r Thema

❖ Gêm dan fwgwd
Rhannwch y bobl ifanc yn barau, un gyda mwgwd dros ei l/llygaid, a'r llall i arwain. Gosodwch rwystrau ar draws yr ystafell, e.e. cadeiriau, byrddau i gropian oddi tanynt, conau i fynd o'u hamgylch a.y.b. Rhaid i'r person gyda'r mwgwd wrando yn ofalus ar gyfarwyddiadau'r arweinydd a mynd o amgylch y cwrs rhwystr heb daro na chyffwrdd â dim byd. Os ydynt yn taro neu gyffwrdd rhwystr, rhaid dechrau eto. Y pâr gyda'r amser cyflymaf sydd yn ennill. Pwysleisiwch bwysigrwydd gwrando ac yna ymateb i lais yr arweinydd.

❖ Trosleisio Teledu/Ffilm
Cyn y wers dewch o hyd i ddarn o raglen teledu, efallai opera sebon neu ffilm, gyda deialog. Dewiswch olygfa lle mae dau gymeriad yn siarad a dangoswch y clip i'r bobl ifanc - ond heb y sain. Rhannwch y bobl ifanc i barau ac eglurwch fod rhaid iddynt greu sgript i'r cymeriadau. Rhowch rai munudau iddynt drafod syniadau ac ysgrifennu'r sgript - gyda'r un mwyaf doniol yn ennill gwobr. Esboniwch y byddwch yn clywed hanes o'r Beibl am Dduw yn defnyddio person i ddweud wrth rywun arall am ei gariad. Dydy hynny ddim yn union yr un fath â'r hyn a ddigwyddodd yn yr ymarfer trosleisio - ond mae Duw yn helpu ei bobl i siarad ar ei ran, ac yn defnyddio ein geiriau wrth inni siarad ag eraill.

Darllen a deall y Beibl

Bydd angen Beiblau a darnau o bapur a phensiliau i bawb.

Gofynnwch i'r bobl ifanc a ydynt yn ei chael hi'n hawdd siarad am Iesu gyda ffrindiau?

Ydyn ni weithiau'n methu meddwl am y geiriau cywir neu'n poeni ein bod yn dweud pethau anghywir?

Ydyn ni weithiau'n rhy swil i siarad am Iesu o gwbl?

Darllen Actau 8:26-40 gyda'r grŵp, pawb i ddarllen rhai adnodau.

Eglurwch fod Duw wedi arwain Philip at yr Ethiopiad a bod Duw wedi parhau i'w arwain yn ystod y sgwrs ac yn y cwestiynau yr oedd yn eu gofyn. Roedd yr Ysbryd Glân yn helpu Philip i egluro'r darn o'r Hen Destament yr oedd yr Ethiopiad yn ei ddarllen ar y pryd. Ar yr un pryd, roedd yr Ysbryd Glân yn helpu'r Ethiopiad i ddeall.

Gofynnwch i'r plant i lunio 2 gylch yn gorgyffwrdd gydag enw 'Philip' o fewn un cylch ac enw 'Yr Ethiopiad' yn y llall e.e.



Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Oed 11 - 14
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Wedyn, ychwanegwch gylch arall gyda'r 'Ysbryd Glân' ynddo.

Beth mae'r ieuenctid yn ei dybio byddai wedi digwydd pe bai ond Philip a'r Ethiopiad yn unig a fyddai wedi cyfarfod? Ni fyddai'r Ethiopiad wedi deall Philip yn esbonio'r Beibl.

Beth fyddai wedi digwydd pe bai dim ond Philip a'r Ysbryd Glân oedd yn yr hanes? Fyddai neb yno i glywed y neges.

Eglurwch mai dim ond pan roedd y tri gyda'i gilydd y cafodd neges Duw ei rhannu a'i derbyn.

Cwestiynau

Beth fedrwn ni ei ddysgu gan Philip a'r hanes hwn? Edrychwch beth mae Philip yn ei wneud yn yr adnodau canlynol:

Adnod 26 a 29 – Gwrando ar Dduw, clywed yr angel a'r Ysbryd Glân

Adnod 27 a 30 – Gwneud yr hyn a ddywedodd Duw

Adnod 30 - Ddim yn rhuthro i mewn, ond disgwyl tan y foment gywir

Adnod 30 a 35 - Gofyn cwestiynau perthnasol, ateb cwestiynau'r Ethiopiad, ddim yn trafod y tywydd – egluro'n syth yr hyn yr oedd yr Ethiopiad angen ei glywed.

Adnod 35 a 38 - Philip yn rhoi'r neges yn llawn, ac yn ei fedyddio hefyd.

Cymhwyso
Gofynnwch i'r bobl ifanc i feddwl - i ba un o'r ddau gymeriad y maen nhw'n debyg - Philip neu'r Ethiopiad?

Ydyn nhw am rannu gydag eraill am gariad Duw fel Philip? Weithiau, byddwn yn cael cyfleoedd i egluro a helpu eraill i ddeall mwy am Iesu a Duw.

Gallwn baratoi ein hunain i helpu pobl eraill trwy ddarllen y Beibl a gweddïo, a thrwy wrando ar Gristnogion yn esbonio'r Beibl i ni. Mae Duw am inni ddysgu mwy amdano ef ei hun er mwyn i ni dyfu fel Cristnogion. Wrth inni geisio byw i blesio Duw, bydd yr Ysbryd Glân yn ein harwain i siarad gydag eraill am Iesu, i dyfu mewn ffydd ein hunain a dod i adnabod Duw yn well.

Neu, ydyn nhw'n debyg i'r Ethiopiad, yn methu deall beth mae'r Beibl yn ei ddweud, ac angen rhywun i'w esbonio? Mae sawl ffordd i gael cymorth: trwy ddarllen y Beibl a gweddïo, trwy wrando ar Gristnogion yn pregethu neu yn yr Ysgol Sul neu'r Clwb Ieuenctid, neu trwy lyfrau Cristnogol. Ond, bydd angen cymorth yr Ysbryd Glân arnom i ddeall ac i gredu. Dim ond yr Ysbryd Glân sy'n rhoi deall go iawn inni. Felly, mae'n rhaid inni ofyn am gymorth yr Ysbryd.

Gweddi
Gofynnwch i'r bobl ifanc i feddwl am y bobl yn eu bywydau sydd angen clywed am Iesu Grist. Anogwch hwy i weddïo am gymorth yr Ysbryd Glân, am gyfleoedd i siarad gyda'r bobl hyn, ac am gymorth i fod yn ddewr.

Anogwch y grŵp i weddïo am gael dysgu mwy am Dduw gyda help yr Ysbryd Glân.
Efallai y byddai'r bobl ifanc yn hoffi dweud gweddi fer eu hunain - neu gallwch weddïo drostynt.

Gweithgaredd Ychwanegol
Rhowch bapur plaen i bawb ac edrych ar adnodau 32-33. Gofynnwch i'r bobl ifanc i wneud cyfres o luniau i ddangos beth sy'n digwydd yn yr adnodau hyn. Pwy sy'n cael ei ddisgrifio yn yr adnodau? Yna, eglurwch fod yr adnodau wedi cael eu hysgrifennu am Iesu, ond 400 mlynedd cyn iddo gael ei eni.

Trafodwch ystyr marwolaeth Iesu, tra bod y bobl ifanc yn tynnu'r lluniau. Eglurwch mai dyma'r

newyddion da am gariad Duw yr oedd ffrindiau Iesu am rannu gyda phawb gyda help yr Ysbryd Glân - yr un newyddion rydyn ni eisiau ei rannu gyda chymorth yr Ysbryd Glân.

Wythnos 2
(Actau 10)

Nod y wers
I barhau i ddarganfod sut gafodd y newyddion da am Iesu Grist ei ledaenu ar draws y byd gan ffrindiau Iesu. Yn y sesiwn yma, gobeithiwn sylweddoli fod y newyddion am Iesu Grist yn newyddion da i bawb, nid yn unig y bobl y bydden ni'n "disgwyl" iddynt fod yn credu yn Iesu.

Cyflwyno'r Thema

Bydd angen bag o fferins
Ar ddechrau'r wers agorwch y bag o fferins a'i roi yng nghanol y bwrdd. Dywedwch wrth y bobl ifanc eu bod yn cael cymryd rhai o'r fferins os ydynt yn dymuno, ond does dim rhaid iddynt gymryd fferins chwaith! (*Byddwn yn cyfeirio'n ôl at hyn ar ôl y darlleniad*)

Gêm Pasio'r neges!
Mae'r gêm yn null 'Piggy in the Middle.' Bydd angen darnau o bapur a phensiliau.
Rhaid rhannu'r grŵp yn 3 tîm:
1. Y Rhai sy'n cario'r neges;
2. Y rhai sy'n derbyn y neges;
3. Rhwystrwyr y neges.

Rhowch dîm rhif 1 (Y rhai sy'n cario'r neges) yn un pen o'r ystafell gyda phapur a phensiliau, ac yna tîm rhif 2 (Derbynwyr y neges) ym mhen arall yr ystafell, gyda thîm rhif 3 (Rhwystrwyr) rhwng y ddau dîm.

Esboniwch eich bod am roi neges (tua 12 o eiriau) i dîm rhif 1, a bod yn rhaid iddynt basio'r neges ymlaen i'r rhai sydd wedi cael eu penodi i dderbyn y neges sy'n sefyll ym mhen arall yr ystafell.

Esboniwch fod yn rhaid ysgrifennu'r neges ar ddarnau o bapur gydag un gair yn unig o'r neges yn cael bod ar un darn o bapur, ac mae'n rhaid taflu'r papur i ochr arall yr ystafell, un ai fel pêl, neu awyren bapur, ayyb.

Tra bod hyn yn digwydd, mae'r rhwystrwyr yn y canol yn gorfod ceisio atal y neges gyrraedd o un pen yr ystafell i'r llall.

Rhowch 5 - 10 munud i'r neges gael ei throsglwyddo.

Ar ddiwedd y gêm, gofynnwch i'r 'derbynwyr' beth oedd y neges. Efallai bydd mwy nag un copi o'r un gair wedi eu cyrraedd, neu efallai bydd geiriau ar goll o'r neges.

Mae'r gêm yma wedi dangos bod sawl problem yn codi wrth inni geisio rhannu neges gyda pherson arall: efallai nad yw'n hawdd pasio'r neges ymlaen neu efallai bod pethau'n ein rhwystro rhag pasio'r neges ymlaen. Efallai, ar ôl derbyn neges, nad yw'n hawdd ei deall!!

Mae hyn i gyd yn wir wrth inni feddwl am geisio rhannu'r hyn rydym yn ei gredu am Iesu gydag eraill. Efallai ein bod yn poeni beth y mae ffrindiau neu bobl yn mynd i feddwl amdanom os ydym yn ceisio rhannu'r newyddion da am Iesu gyda nhw. Efallai nad ydym yn siŵr beth i'w ddweud neu ein bod yn rhy swil i ddweud dim byd.

Yn y wers heddiw rydym am weld sut oedd yn rhaid i Pedr gael ffydd yn Nuw er mwyn rhannu'r newyddion da am Iesu Grist gyda phobl nad oedd yn disgwyl gorfod siarad â hwy.

Darllen a deall y Beibl
Bydd angen Beiblau, siâp calon a phensel ar bawb, darn mawr o bapur neu fwrdd gwyn.

Darlleniad - Ioan 3:16 (beibl.net) *Gweler Atodiad 8.*

Oed 11 - 14
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Yn gyntaf mae'n bwysig ein bod yn deall beth yw'r newyddion da am Iesu Grist, oherwydd os nad yw'n *real* yn ein bywydau a'n calonnau ni, ni allwn rannu'r newyddion da yma gyda neb arall!

Mae'r adnod yma yn llyfr Ioan yn un o adnodau enwocaf y Beibl, am ei bod yn crynhoi'r newyddion da am Iesu Grist o fewn un adnod!
Do, Carodd Duw y byd gymaint….

Gofynnwch i'r bobl ifanc i ysgrifennu'r geiriau ar y galon.

Pwy mae Duw yn caru? Ydy hyn yn golygu'r mynyddoedd a'r coed a'r anifeiliaid? Na, mae'n golygu pobloedd y byd. Felly mae rhan gyntaf yr adnod yn dweud wrthym fod Duw yn caru Pawb!

…nes iddo roi ei unig fab…. *Gofynnwch i'r bobl ifanc i ysgrifennu'r geiriau ar y galon.*

Pwy roddodd Duw i ni? Gan fod Duw yn caru'r byd, mae wedi rhoi ei unig Fab. Mae wedi danfon Iesu Grist i farw yn ein lle ni! Ond pam fod angen iddo farw yn ein lle? Oherwydd ein bod wedi troi i ffwrdd oddi wrth Dduw, rydym yn haeddu cosb, a'r gosb yn ôl y Beibl yw marwolaeth. Ond, gan fod Duw yn ein caru gymaint mae wedi rhoi Iesu i farw yn ein lle! Anhygoel!
…er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Gofynnwch i'r bobl ifanc i ysgrifennu'r geiriau ar y galon.

Beth sy'n digwydd i'r rhai sy'n credu hyn?
Os ydym yn credu yn Iesu, a rhoi ein bywydau iddo, ni fyddwn yn derbyn cosb am droi i ffwrdd oddi wrth Dduw, ond byddwn yn cael bywyd tragwyddol, bywyd am byth yn y nefoedd! Newyddion Da? Newyddion Da!!!

Cyfeirio'n ôl at y fferins…

Beth ddywedwyd am y fferins ar ddechrau'r wers? Cynigiwyd fferins i bawb, ond roedd dewis - doedd dim rhaid i bawb gymryd fferins os nad oeddent yn dymuno.

Esboniwch mewn ffordd debyg, mae Duw yn caru pob un ohonom, ac mae wedi caru pob un ohonom gymaint fel ei fod wedi anfon Iesu i gymryd ein cosb ni yn ein lle. Ond mae'n rhaid i ni benderfynu dros ein hunain a ydym am dderbyn y cariad hwnnw, a chredu yn Iesu, a byw er ei fwyn.

Dyma'r neges yr oedd ffrindiau Iesu'n ceisio ei rhannu. Atgoffwch y grŵp am y wers flaenorol - hanes Philip yn cyfarfod â'r Ethiopiad.

Ond, yr adeg honno, roedd y Cristnogion yn ei chael hi'n anodd iawn i dderbyn fod Iesu wedi dod i achub pawb. Cyn dod yn ddilynwyr i Iesu Grist - Cristnogion - roeddent yn Iddewon, ac roedd yr Iddewon wedi bod yn disgwyl am yr **un** a fyddai'n dod i'w hachub ers cannoedd o flynyddoedd. Ond, roedd Iesu wedi gorchymyn i'w ddilynwyr bregethu, a dweud wrth **bawb** amdano - roedd y newyddion da hefyd ar gyfer pobl nad oeddent yn Iddewon.

Yn Actau 10 gwelwn sut y gwnaeth Duw ddangos yn glir i Pedr fod y newyddion da ar gyfer pobl o bob cenedl.
Darllenwch Actau 10 :1-7.

Gofynnwch i un aelod o'r grŵp i dynnu llun o Cornelius ar ddarn o bapur neu fwrdd gwyn, a thrafodwch pa fath o ddyn ydoedd a beth ddywedodd yr angel wrtho.

Darllenwch Actau 10:9-16

Gofynnwch i un aelod o'r grŵp i dynnu llun o'r hyn a welodd Pedr yn ei freuddwyd, ac i ysgrifennu beth oedd ymateb Pedr i'r gorchymyn i gymryd rhywbeth i'w fwyta.

Darllenwch adnod 15 eto. Pwy sy'n siarad? Beth mae Duw yn ei ddweud wrth Pedr?

Darllenwch adnodau 17-23

Pwy oedd yn chwilio am Pedr? Sut oedd Pedr yn gwybod ei fod yn iawn iddo fynd gyda'r dynion?

Darllenwch adnodau 34-35

Beth oedd Pedr yn sylweddoli?

Cymhwyso
Dangosodd Duw yn glir wrth Pedr fod y newyddion da am Iesu ar gyfer pawb! Efallai ein bod ychydig fel Pedr yn credu fod hanes y Beibl ar gyfer criw arbennig o bobl, efallai dim ond ein ffrindiau sy'n dod i'r clwb neu'r ysgol Sul.

Ond y gwir yw bod Duw wedi caru pawb, ac fe fu Iesu farw dros bawb hefyd, felly mae'r newyddion da ar gyfer pawb! Mae'n medru bod yn anodd rhannu gyda'n ffrindiau y rheswm pam ein bod yn mynd i gapel, neu esbonio pam dydyn ni ddim ar gael ar fore Sul am ein bod yn mynd i gapel neu ysgol Sul. Gyda nerth Duw yr oedd Pedr yn gallu mynd â'r newyddion da i Gorneliws a'i deulu, ac mae Duw yn addo rhoi nerth i ninnau hefyd wrth i ni rannu'r newyddion anhygoel am Iesu Grist gyda'n ffrindiau.

Gweddïo
Gofynnwch i'r bobl ifanc i weddïo, yn dawel neu ar goedd, dros bobl benodol y maent yn gobeithio bydd yn derbyn Iesu i'w bywydau. Wedyn, gweddïwch drostynt, iddynt dderbyn nerth Duw wrth iddynt geisio siarad amdano yn yr ysgol, adref ac ym mhopeth y maent yn ei wneud.

Wythnos 3
Actau 14:8-20

Nod y wers
I ddangos nad oedd dilyn Iesu, neu rannu'r newyddion da amdano, bob tro yn hawdd ac yn aml wynebodd ffrindiau Iesu erledigaeth. Ond, trwy'r cyfan profodd dilynwyr Iesu fod Duw yn eu cynnal wrth iddynt geisio dilyn ei gynllun Ef ar gyfer eu bywydau. Hefyd, i ystyried beth sy'n rhwystro pobl rhag dod i adnabod Iesu.

Cyflwyno'r Thema

1. Lluniau Sêr
Bydd angen yr Atodiad Lluniau Sêr, sydd ar gael ar y GDd.

Ar yr Atodiad ceir llun o Seren enwog a *"Lookalike*". Gofynnwch i'r bobl ifanc ddewis pa un yw'r seren go iawn!

Oedd y grŵp yn ei chael hi'n anodd dewis y seren go iawn? Mae pobl sy'n debyg i sêr o'r byd ffilm neu deledu yn gallu ennill llawer o arian fel "*Lookalike*". Yn yr hanes heddiw gwelwn sut y cafodd Paul a Barnabas eu cam-gymryd i fod yn 'sêr'!

2. Gêm - Bwrw'r Rhwystrau i lawr!
Cyn y wers, paratowch gyfres o gardiau sy'n cynnwys pethau a all fod yn rhwystr i berthynas y bobl ifanc â Duw, e.e. Ysgol, Ffrindiau, Chwaraeon, Ofn, Amheuon, Dyfodol, Bwlio, ayyb.

Rhowch y cardiau i sefyll i fyny ar fwrdd, gyda'r geiriau o'r golwg, a gofynnwch i'r plant sefyll tua 5 metr i ffwrdd. Yna rhowch fagiau ffa, neu rywbeth o'r fath (peli sbwng, papur wedi ei gywasgu'n bêl) i'r bobl ifanc a gweld sawl cerdyn gallant daro i lawr gyda 5 ymgais.

Gallwch roi gwobr i'r person sydd wedi taro'r nifer fwyaf i lawr!

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Os nad yw'r bobl ifanc wedi sylwi ar y geiriau'n barod, dangoswch y geiriau iddynt ac eglurwch fod y pethau sy'n cael eu henwi yn gallu dod rhyngom ni â Duw. Efallai yr hoffech wahodd y bobl ifanc i gynnig esiamplau neu cynigiwch esiamplau eich hun.

Yn y sesiwn hon, byddwn yn gweld sut y gwnaeth Paul a Barnabas helpu pobl Lystra i weld beth oedd yn eu rhwystro rhag cael adnabod Duw'n iawn.

Darllen a deall y Beibl Actau 14:8-20

Bydd angen Beiblau, darn mawr o bapur, jig-so syml (gyda thua 6 darn)

❖ **Darllenwch Actau 14:8-13**

❖ **Eglurwch gefndir yr hanes.** Roedd pobl ardal Lystra yn credu hen chwedl am ymweliad y duwiau Zeus a Hermes a oedd yn edrych yn debyg i ddynion cyffredin. Aethant o dŷ i dŷ yn gofyn am lety, ond ni chawsant groeso gan neb, ar wahân i un hen gwpl. Roedd y duwiau yma wedi eu siomi gan ddiffyg croeso pobl Lystra ac fel cosb, anfonwyd llifogydd mawr gan ddinistrio pawb a phopeth heblaw am deulu'r hen gwpl a roddodd lety iddynt.

Efallai ei bod hi'n fwy amlwg pam fod pobl Lystra mor awyddus i geisio plesio Paul a Barnabas! Gallwch ofyn i'r criw actio'r stori; penodwch gymeriadau ac yna darllenwch drwy'r stori eto.

❖ **Cwestiwn i'w ateb**

Beth oedd y neges y daeth Paul i'w rannu?

Adnod 15 - y newyddion da i bobl Lystra oedd nad oedd yn rhaid iddynt addoli pobl yr oeddent wedi eu creu yn eu dychymyg (y duwiau), na phethau o fyd natur. Roedd Paul yn esbonio sut y gallent ddod i adnabod ac addoli'r un a oedd wedi creu 'y nef a'r ddaear, y môr a phopeth sydd ynddo.' Dywedodd Paul wrth bobl Lystra i droi oddi wrth addoli'r duwiau i addoli'r Duw byw. Gofynnwch i'r bobl ifanc i restru popeth sy'n bwysig iddynt. Ysgrifennwch gymaint o'u hatebion ar ddarn mawr o bapur ag sy'n bosibl. Gosodwch y papur ar y wal a gofynnwch i bawb sefyll o flaen y rhestr gan yn ei hwynebu. Gofynnwch i bawb ddweud beth fyddai rhif 1 ar restr bersonol, beth yw'r peth pwysicaf oll iddynt. Gofynnwch i'r bobl ifanc i droi cefn ar y rhestr. Mae Duw'n dweud wrthym heddiw bod yn rhaid i ni droi cefn ar bopeth arall sy'n bwysig i ni a'i wneud Ef y peth pwysicaf yn ein bywyd. Dyma ffordd arall o ddisgrifio beth sy'n digwydd pan mae person yn dod yn Gristion - mae'n newid cyfeiriad, yn troi oddi wrth fyw i blesio ef/hi ei hun, ac yn troi i dderbyn bod Duw am fod yn rhif 1 yn ei b/fywyd. Dydy hyn ddim yn golygu nad yw Cristnogion i gael *i phone* neu ddillad neis neu dreulio amser yn gwylio'r teledu. Mae'n golygu bod Duw yn bwysicach na'r pethau eraill yn ein bywyd ac felly byddwn yn cofio amdano a'r hyn sy'n ei blesio.

❖ **Beth nesaf?**

Darllenwch adnodau 19, 20.
Ar ôl rhannu'r newyddion da gyda'r dorf, yn dweud wrthynt ba mor anhygoel ydy Duw yn creu popeth, yn danfon y glaw ac yn rhoi calonnau llon i ni, trodd y bobl yn erbyn Paul a Barnabas. Bu bron iawn i Paul farw! Roedd yn rhaid iddynt symud ymlaen i dref arall y dydd canlynol. Hyd yn oed os ydym yn byw mewn ffordd sy'n plesio Duw ac yn ei addoli Ef, ni fydd popeth yn hawdd bob amser.

Pam fod Paul a Barnabas yn fodlon parhau i rannu'r newyddion da?
Roeddent yn gwybod eu bod yn rhan o gynllun Duw a bod Duw yn rheoli ymhob sefyllfa.

Gofynnwch i'r grŵp i edrych ar yr adnodau canlynol o'r hanes eto, i weld sut oedd Duw ar waith.

Adnod 9: Roedd gan y dyn cloff ffydd a chafodd ei iacháu gan Dduw.

Adnod 15: Mae Paul yn cael cyfle i esbonio'r newyddion da wrth lawer o bobl Lystra.

Adnod 19: Dydy Paul ddim yn cael ei ladd.

Adnod 20: Mae Paul a Barnabas yn symud i Derbe.

Cymhwyso
Bydd angen jig-so syml
Rhowch y darnau ar y bwrdd, oni bai am un, a heb ddangos y clawr i'r grŵp. Gofynnwch i un neu ddau ohonynt i geisio cwblhau'r jig-so. Rhowch y darn olaf iddynt, ar ôl iddynt ddarganfod bod un darn ar goll.

Mae gan yr hanes heddiw sawl darn - yn debyg i'r jig-so. *Torrwch y jig-so, ac wrth ei roi'n ôl at ei gilydd adroddwch yr hanes yn fras, gyda phob darn o'r jig-so'n cynrychioli darn o'r hanes.* Cadwch y darn olaf yn ôl, gan ddweud, er nad yw Paul a Barnabas yn gwybod sut byddai pethau'n troi allan yn Lystra, roeddent yn fodlon gwneud yr hyn oedd Duw yn gofyn iddynt ac ymddiried ei fod ef yn gweithio popeth allan i gyflawni ei gynllun ef.

Mae'r un peth yn wir ym mywyd pob Cristion. *Torrwch y jig-so eto, gan ail osod y darnau wrth siarad.* Mae gan Dduw gynllun ar gyfer pob un sy'n ei garu ac yn ceisio byw i'w blesio, er nad ydym yn gweld sut mae pethau'n dod at ei gilydd ambell waith. Mae Duw yn ein rhoi mewn teulu, gyda ffrindiau, mewn ysgol, am reswm arbennig. Ac os ydy pethau'n anodd arnom o dro i dro, mae gan Dduw reswm dros hynny hefyd.

Gweddi
Anogwch bawb i ddweud gweddi fer eu hunain. Efallai yr hoffech weddïo'n gyntaf gan adael seibiant ar ôl pob brawddeg i'r bobl ifanc weddïo'n ddistaw ar eich ôl.

Dechreuwch drwy ddiolch i Dduw am ei gariad tuag atom. Diolchwch hefyd mai ef ydy'r Duw byw a'i fod yn dymuno i ni ei adnabod a'i addoli. Gweddïwch am faddeuant am addoli pethau eraill, gan ofyn i Dduw lenwi ein calonnau gyda'i Ysbryd fel ein bod yn medru canolbwyntio arno ef a'i roi yn rhif 1. Diolchwch am y sicrwydd bod gan Dduw gynllun ar gyfer pob un o'i bobl, a hyd yn oed mewn amseroedd anodd, mae Duw yn rheoli. Gofynnwch am gymorth Duw i gredu ac i ymddiried mewn adegau anodd, ac am nerth trwy'r cwbl.

Gweithgaredd Ychwanegol
Ceisiwch ddod o hyd i wybodaeth am Gristnogion sy'n cael eu herlid o amgylch y byd heddiw. Cewch gylchgronau gan 'Barnabas Aid' neu cewch lawrlwytho gwybodaeth o'i safle gwe barnabasfund.org
Neu, defnyddiwch yr hanesion o Daflen 7.





Atodiad 2
Ffrindiau Iesu: Actau 16



Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Atodiad 3
Ffrindiau Iesu: Actau 16









Atodiad 4
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Gwnewch gopïau o'r dudalen hon a thorri'r stribedi allan. Caiff y plant ddefnyddio pensiliau lliw i fynd ar hyd y llinellau i greu patrymau, cyn eu gludo i greu cadwyn. Mae'r stribed olaf yn wag er mwyn i'r plant gael rhoi patrwm eu hunain yno.

……

……

……

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

DERBE

Ewch yn syth i Lystra

LYSTRA

Cyfarfod â Timotheus, a phenderfynu mynd ag ef ar y daith i Phrygia a Galatia

PHRYGIA A GALATIA

Ble nesaf? Mae Ysbryd Iesu'n eu hatal rhag mynd i Bythynia – felly lawr i Troas â nhw.

Troas

Mae Paul yn gweld dyn o Facedonia mewn breuddwyd ac yn gofyn am gymorth. Hwylio am Facedonia.

Macedonia

Ewch yn syth i ddinas Philipi.

Philipi

Pam na aeth Paul, Silas a Timotheus i Fythynia?
Pam aethant i Facedonia?

Atodiad 6
Ffrindiau Iesu: Actau 16









Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

Atodiad 7
Ffrindiau Iesu: Actau 16











Ewch	i'r	holl
fyd	i	bregethu'r
newyddion	da.	Marc 16:15

Mae Duw wedi caru'r byd cymaint

nes iddo roi ei unig Fab,

er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo

beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Ioan 3:16

Teulu Newydd Ruth ℗ Cyhoeddiadau'r Gair 2007

PC yr Actau

Rhan 1: Moliant

- ❖ Emyn
- ❖ Salm 100
- ❖ Gweddi o fawl a diolchgarwch:

Bydd angen paratoi stribedi o bapur lliwgar ymlaen llaw a styffylwr. Gofynnwch i'r gynulleidfa enwi'r hyn y maent am ddiolch i Dduw amdanynt neu pam eu bod am foli Duw. Am bob testun diolch neu bwnc moliant dylid creu dolen gyda'r papur a chysylltu'r dolenni fel cadwyn addurniadau Nadolig. Wrth i'r gadwyn fynd yn hirach, dylid nodi wrth y gynulleidfa cymaint yw'r rhesymau dros ddod ynghyd i addoli heddiw.
Gorffennwch y weddi trwy ganu 2 bennill o'r gân 'Diolch, diolch Iesu' (Caneuon Ffydd, 147) gan ddefnyddio'r geiriau:
1. Diolch diolch Iesu..yw fy nghân.
2. Ti sy'n haeddu moliant…yw fy nghân.

Rhan 2: Gwaith yr Eglwys Fore

❖ Gweithgarwch: Bydd angen 2 falŵn (neu fwy os oes adeilad/cynulleidfa fawr gan eich eglwys). Esboniwch fod y balwnau yn cynrychioli newyddion da Iesu Grist (gellir ysgrifennu Ioan 3.16 ar y falŵn, neu glymu'r adnod ar labed). Treuliwch ychydig o funudau yn ail ddweud/dysgu'r adnod. Yna, gofynnwch i'r gynulleidfa daro'r balwnau o amgylch yr adeilad gan ddweud yr adnod yn uchel, ond eglurwch nad oes hawl gan neb i daro'r falŵn i gyfeiriad unrhyw berson sy'n gwisgo sbectol neu yn gwisgo rhywbeth glas (gellir amrywio'r categorïau hyn i gyd-fynd â'r sefyllfa leol). Dywedwch wrth bawb sydd o fewn y categorïau hyn nad oes hawl ganddynt i gyffwrdd y balwnau.

Wedi chwarae'r gêm am ychydig funudau, gofynnwch i'r bobl sydd wedi eu gadael allan, a oedden nhw'n teimlo annifyr oherwydd eu bod yn methu chwarae'r gêm?

❖ Darlleniad gan un o'r plant neu'r oedolion oedd wedi eu gadael allan o'r gêm neu beth am ddefnyddio pyped (gall y pypedwr guddio yn y pulpud):
Doeddwn i ddim yn cael chwarae'r gêm falŵn. Doeddwn i ddim yn hoffi hynny. Pan ddechreuodd ffrindiau Iesu Grist rannu'r Newyddion Da yn y ganrif gyntaf roedden nhw'n gadael pobl allan hefyd. Dim ond Iddewon oedd yn cael gwybod am Iesu, am ei ddamhegion, ei wyrthiau, y groes a'r atgyfodiad. Thema'r oedfa hon ydy PC yr Actau. Mae'r 'P' yn cynrychioli Pedr, a'r 'C' yw Cornelius. Doedd Pedr a'i ffrindiau ddim yn mynd at bobl nad oeddent yn Iddewon, pobl fel Cornelius, ceir ei hanes yn Actau pennod 10. Ond roedd gan Dduw gynllun i newid hyn.

- ❖ Emyn/cân am gariad Duw yn Iesu Grist.

Rhan 3: Duw yn dysgu gwers i Pedr

❖ Gweithgarwch: bydd angen paratoi jig-so syml 6 darn o'r byd ymlaen llaw, (ar gerdyn digon o faint i fod yn weladwy i'r gynulleidfa); hefyd *blutack* a man arddangos (wal/*flipbboard*/bwrdd du). Cyn y gwasanaeth, dylid cuddio 5 o'r darnau o dan seti'r man cyfarfod. Cewch hyd i fap ar y GDd.
Gofynnwch i bawb chwilio am y darnau jig-so dod â nhw i'w gosod yn eu lle. Bydd un darn yn eisiau.

Gwasanaeth Teuluol
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Atgoffwch y gynulleidfa am neges Ioan 3.16. *Gweler Atodiad 8.* Mae'r adnod yn pwysleisio fod Duw wedi dangos ei gariad at y BYD nid 'rhan' o'r byd. Anfonodd Duw Iesu i'r byd er mwyn i bawb brofi ei gariad a'i faddeuant, hyd yn oed y bobl nad oeddent yn Iddewon. Felly, roedd rhan o jig-so cariad a gras Duw ar goll os nad oedd pobl fel Cornelius yn cael gwybod am Iesu a'i newyddion da. Roedd Duw am i Pedr a'i ffrindiau ddweud wrth BAWB, hyd yn oed y bobl nad oeddent yn Iddewon, am Iesu, (rhoi'r darn jig-so olaf yn ei le) ac yna byddai ei gariad yn cyrraedd at bawb.

Ond nid darn o jig-so cariad a gras Duw yn unig oedd ar goll. Roedd darn pwysig o fywyd Cornelius ar goll hefyd.

❖ Darlleniad o'r Ysgrythur (Actau 10: 1 a 2).

(Bydd angen paratoi siâp dyn, maint plentyn os yn bosibl, o bapur. Gellir defnyddio papur newydd neu bapur leinio wal. Bydd angen torri sgwâr yn ardal y galon ac ysgrifennu IESU ar y darn hwnnw.) Eglurwch fod y Beibl yn dweud fod Cornelius yn ddyn da - roedd yn addoli Duw, yn gweddïo ac yn helpu pobl. Ond roedd Cornelius angen clywed y newyddion da am Iesu a'i groes ac am faddeuant. Roedd Iesu ar goll o fywyd Cornelius (dangoswch y darn papur), ond roedd gan Dduw gynllun. Roedd yn trefnu i Cornelius a'i ffrindiau a'i deulu glywed am Iesu trwy Pedr.

❖ Darllen Actau 10:3-8.

❖ Gweledigaeth Pedr

Sgets
Cymeriadau: 4 plentyn; Llefarydd 1; Llefarydd 2; Pedr
Offer: Cynfas; cyflenwad o blatiau papur

Llefarydd: Tua chanol dydd y diwrnod canlynol pan oedd gweision Cornelius bron â chyrraedd Jopa, roedd Pedr wedi mynd i fyny i ben y to i weddïo. Dechreuodd deimlo ei fod eisiau bwyd. Tra'r oedd cinio yn cael ei baratoi cafodd weledigaeth. Gwelodd yr awyr yn agor a rhywbeth tebyg i gynfas fawr yn cael ei gollwng i lawr i'r ddaear wrth ei phedair cornel.

4 plentyn i ddod ymlaen yn dal corneli cynfas a sefyll o flaen y gynulleidfa..

Llefarydd 1 : Y tu mewn i'r gynfas roedd pob math o anifeiliaid, ymlusgiaid ac adar.

Llefarydd 2: Dyna'r anifeiliaid roedd Duw wedi dweud wrth yr Iddewon am beidio â'u bwyta. Mae'r rhestr yn Lefiticus 11. Dyma ychydig o'r rhestr - camel, broch, ysgyfarnog, mochyn, unrhyw beth o'r môr sydd heb esgyll na chen, eryr, fwltur, barcud, brân, estrys, gwylan, hebog, pelican, llygoden, lysard.

Llefarydd 1: A dyma lais yn dweud wrtho, "Cod Pedr, lladd beth rwyt ti eisiau, a'i fwyta."
Pedr: Dwyt ti ddim o ddifri, Arglwydd!. Dw i erioed wedi bwyta dim byd sy'n cael ei gyfri'n aflan neu'n anghywir i'w fwyta.

Llefarydd 2: Ond meddai'r llais, "Os ydy Duw wedi dweud fod rhywbeth yn iawn i'w fwyta, paid ti â dweud fel arall!"
Digwyddodd yn union yr un peth dair gwaith! Yna'n sydyn, aeth y gynfas yn ôl i fyny i'r awyr

Llefarydd 2: Wrth i Pedr feddwl am y weledigaeth, sylweddolodd fod Duw am iddo rannu'r newyddion da am Iesu gyda phawb, nid yr Iddewon yn unig. Does neb y tu hwnt i gariad Duw.

❖ (Bydd angen casgliad o bensiliau – gwahanol hyd a lliw a maint - a chwalwr). Dangoswch y pensiliau i bawb gan bwysleisio pa mor wahanol ydynt i'w gilydd.
Gofynnwch beth sy'n gyffredin i'r holl bensiliau.
Yr ateb - mae pob pensil yn gallu gwneud camgymeriad! Ac felly mae angen chwalwr i helpu pob un o'r pensiliau hyn. Mae'r chwalwr yn cael gwared â chamgymeriadau'r pensiliau ar bapur, (gellir holi'r plant am eu profiad hwy o wneud camgymeriadau. Pa fath o chwalwr sydd ganddyn nhw etc)
Mae pobl y byd fel y pensiliau. Mae pawb yn wahanol i'w gilydd – rhai tal, rhai byr, rhai yn dew, eraill yn denau, gwahanol liw croen a llygaid, gwallt hir a gwallt byr, gwahanol ieithoedd. Ond mae pawb yn debyg mewn un ffordd – mae pawb yn gallu gwneud camgymeriadau mewn bywyd, gwneud pethau na ddylen nhw ddim, gwneud pethau sy'n gwneud Duw yn drist ac yn flin. Gair y Beibl am hyn yw pechu. Mae angen chwalwr i ddadwneud camgymeriadau'r pensiliau, Mae angen Iesu a'i aberth ar y groes i ddadwneud camgymeriadau pobl y byd – waeth pwy ydyn nhw.

Aeth Pedr i Gesarea, lle'r oedd Cornelius yn byw. Siaradodd am Iesu, ei fywyd, ei farwolaeth ar y groes a'r atgyfodiad a'r angen i bawb gredu yn Iesu a rhoi eu ffydd ynddo. Daeth yr Ysbryd Glân i fywyd Cornelius a phawb arall oedd yn gwrando, a sylweddolodd y credinwyr Iddewig fod Duw am i bawb, yn Iddewon a phobl nad oeddent yn Iddewon, dderbyn Iesu yn Arglwydd eu bywydau.

Dangoswch eto'r siâp bapur o Cornelius - y tro hwn gosodwch y darn coll yn ei le gyda thâp selo.

Rhan 4: cyflwyniadau'r Ysgol Sul
❖ Cyfle i'r plant iau a'r plant ac ieuenctid eraill gyflwyno unrhyw waith/gyflwyniadau a baratowyd wrth astudio'r hanes.

Neu, gellir gofyn i oedolion neu ieuenctid hwn gyflwyno'r sgets 'Ni a Nhw' oddi ar wefan beibl.net)

❖ Cân/Emyn

Rhan 5: Her a Gweddi
❖ Gallwn fod yn debyg i Cornelius – yn addoli Duw, yn gweddïo, yn helpu pobl, ac eto bydd rhywbeth ar goll yn ein bywydau, sef ffydd yn Iesu Grist. Mae Duw am weld Iesu Grist yn Arglwydd bywyd pawb. Nid rhywbeth ar gyfer pobl eraill yw credu yn Iesu a'i ddilyn.
Dywed Ioan 3.16 - Do carodd Duw y byd.
Cafodd disgyblion Iesu eu hanfon allan i bregethu i'r holl fyd.
Mae pawb yma heddiw yn byw yn y byd.
(Dangoswch amlen sy'n cynnwys eich cyfeiriad yn llawn)
Fy nghyfeiriad i ydy .....(ychwanegwch y manylion)
Cymru,
Y Deyrnas Gyfunol,
Ewrop,
Y BYD.
Gofynnwch i rai o'r gynulleidfa nodi eu cyfeiriad hyd at yr elfen olaf – y BYD

Gwasanaeth Teuluol
Ffrindiau Iesu: Actau 16

Felly mae pawb yma yn bobl yr anfonodd Duw Iesu i'r byd i'w caru a'u hachub. Mae angen i ni dderbyn cariad Duw yng Nghrist.

Mae Duw yn gofyn i'r eglwys Gristnogol heddiw fod fel Pedr. Rhaid i ni wahodd PAWB at Iesu nid rhai yn unig.
Beth am i ni chwarae'r gêm Rhannu'r Newyddion Da gyda'r balwnau eto – ond y tro hwn mae pawb yn cael chwarae. Rhaid i ni, fel Pedr, sylweddoli fod Duw yn gwahodd pawb ato a bod yn barod i gael ein defnyddio i estyn allan at eraill.

Chwarae'r gêm falŵn a gadael i bawb daro'r falŵn y tro hwn.

❖ **Gweddi**: (dylid darparu hances bapur i bawb).
Os ydych wedi defnyddio pyped yn y rhan gyntaf, gall y pyped arwain y cyfnod o weddïo.
Eglurwch fod yr hances yn ein hatgoffa o'r lliain a welodd Pedr. Rydym yn mynd i weddïo dros bobl sydd angen help Duw. Gofynnwch i bawb feddwl
- am unrhyw un sâl neu drist
- am unrhyw un sydd ddim yn dod i'r Ysgol Sul
- am unrhyw un sydd ddim yn dod i addoli neu ddim yn cydnabod Duw yn eu bywyd.
- am unrhyw ran o'r byd lle mae yna ddioddef ac angen
- am eu teulu a'u ffrindiau.

- Hefyd i bawb ddweud sori am unrhyw beth drwg yn eu bywydau.

Yna gofynnwch i bawb lapio'r hances.
Dylid cloi'r weddi gyda'r geiriau:
O Dduw, rydym wedi meddwl am bobl sydd angen dy gymorth di ac rydym yn eu cyflwyno i ti mewn gweddi. Diolch am wrando arnom yn enw Iesu Grist.

Gweddi'r Arglwydd

Yna anogwch bawb i fynd â'r hances gyda hwy a'i rhoi mewn lle amlwg yn y tŷ er mwyn eu hatgoffa i barhau i weddïo.

❖ Emyn i gloi